**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 Rhagfyr 2014

**Aelod Cabinet: Cyng. Peredur Jenkins**

**Pwnc: Arbedion Effeithlonrwydd 2015/16 – 2017/18**

**Swyddog cyswllt: Meinir Owen**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Gofynnir i'r Cabinet:

- ystyried argymhellion yr Aelod Cabinet yn sgil argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol a phenderfynu ar y ffordd ymlaen fesul cynllun yn unol a'r argymhelliad yn Atodiad 1
- ystyried a chymeradwyo gweddill y cynigion effeithlonrwydd (Atodiad 2), hyn oll yng nghyd-destun yr asesiad effaith cydraddoldeb perthnasol (Atodiad 3).

---

**Barn yr aelod lleol**
Nid yw'n fater lleol

---

**Cefndir**

1.1 Fel rhan o Strategaeth Ariannol y Cyngor rydym yn taflunio bwlch ariannol tybiedig o tua £50m dros y pedair blynedd 2014/15 - 2017/18. Gyda chynnydd tybiedig o 3.5% yn y Dreth Gyngor ac arbedion sydd eisoes ar y gweill, byddai hyn yn gadael tua £34m o arbedion pellach i'w ddarganfod.

1.2 Bu i'r Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 6ed o Fawrth, dderbyn y strategaeth isod oedd yn rhagweld cyfarch y bwlch yma drwy:

| | |
|---|---|
| Polisi Treth Gyngor | Ystyried cynnydd yn y Dreth Gyngor mewn amrediad o 3.5% - 5% |
| Y gyllideb ysgolion | Ystyried rhoddi targed i'r gyllideb ysgolion yn seiliedig ar beth sy'n ymarferol. |

| | |
|---|---|
| Y Comisiwn ar Lywodraethu | Ystyried a fydd yna arbedion yn deillio o ad-drefnu y gellir dibynnu arnynt a chymryd i ystyriaeth. |
| Arbedion Effeithlonrwydd | Uchafu'r arbedion effeithlonrwydd y gellir eu gwireddu |
| Toriadau | Ffigwr sydd ar ôl |

1.3 Mae'r adrannau bellach wedi cyflwyno cynigion effeithlonrwydd yn unol â'r targedau a osodwyd iddynt gan y Cabinet ar y 1af o Ebrill.

1.4 Cytunwyd fel rhan o'r broses, byddai gweithgor o aelodau craffu yn cwblhau gwaith manwl i herio effaith y cynigion ar bobl Gwynedd.

1.5 I'r perwyl hwn, fe gytunwyd yn y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn ei gyfarfod ar 24ain o Ionawr i sefydlu gweithgor o'u plith (h.y. y Pwyllgorau Craffu, Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Pwyllgor Archwilio).

1.6 Gan gofio mai arbedion effeithlonrwydd yr ydym yn sôn amdanynt yma fe ddylai'r effaith ar ganlyniadau i drigolion fod yn llai na'r hyn y byddwn yn ei weld mewn unrhyw gyfundrefn toriadau.

## 2. Mewnbwn Aelodau

2.1 Fe gynhaliwyd Gweithdy i holl aelodau'r Cyngor ar yr 8fed a'r 13eg o Hydref ble roedd cyfle i aelodau gyflwyno sylwadau a / neu bryderon am y cynigion i'r Gweithgor Craffu eu hystyried. Fe fynychodd 35 o aelodau. Roedd hyn yn caniatáu i'r gweithgor fod yn gynhwysol yn eu rôl gyda'u cyd-aelodau i graffu effaith y cynigion.

2.2 Yn ogystal, ar gyfer yr aelodau na fu'n bosib mynychu, fe yrrwyd pecyn atynt hwythau gyda chyfle i godi sylwadau a / neu bryderon.

## 3. Gweithgor Craffu Arbedion

3.1 Fe gynhaliwyd 6 cyfarfod hanner diwrnod i drafod y cynigion effeithlonrwydd fesul adran rhwng y 14eg o Hydref a'r 3ydd o Dachwedd.

3.2 Bu i'r gweithgor roi sylw i'r holl sylwadau a gasglwyd o'r gweithdai a gynhaliwyd i'r aelodau gan ystyried goblygiadau gweithredu'r

cynigion ac amlygu unrhyw ystyriaethau o ran effaith a oedd angen dwyn i sylw'r Cabinet. Adroddwyd casgliadau'r Gweithgor i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 13 Tachwedd ac mae crynodeb o argymhellion y Pwyllgor er ystyriaeth y Cabinet yn Atodiad 1.

**4. Trosolwg o'r cynigion**

4.1 Ceir rhestr gyflawn o'r holl gynigion yn Atodiad 2 fesul adran. Yn ogystal, mae'r effaith ar bobl Gwynedd yn cael ei nodi fesul cynnig yn yr atodiad. Fe welir o'r rhestr bod cyfanswm y cynigion effeithlonrwydd dros y tair blynedd yn £14.9miliwn.

4.2 O ran amserlen gweithredu rhagwelir arbedion o £5.7miliwn ar gael ar y 1af o Ebrill, gyda £967,000 arall ar gael erbyn diwedd 2015/16.

4.3 Mae materion cydraddoldeb wedi derbyn sylw ar y cyd â'r Swyddog Polisi Cydraddoldeb ac Iaith ac mae materion penodol i'w cael yn Atodiad 3.

4.4 O ran gweithredu, mae rhai cynlluniau angen adolygiad pellach cyn dod i gasgliad terfynol. Mae'r cynlluniau hynny wedi eu lliwio yn Atodiad 2 a heddiw gofynnir i chwi gytuno'r rhain mewn egwyddor yn amodol ar dderbyn adroddiad ar y cynllun terfynol.

4.5 Er mwyn gwireddu'r cynigion bydd effaith ar staff ac fe ragwelir ar hyn o bryd lleiafswm lleihad o 254 o swyddi llawn amser. Rhaid nodi mai darlun heddiw ydi hynny ac fe fydd angen adolygu'r sefyllfa yn barhaus wrth i gynlluniau aeddfedu.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Cyfarch y bwlch ariannol drwy arbedion effeithlonrwydd yn unol â'r strategaeth gytunedig. Yn ei hanfod dylai arbedion effeithlonrwydd gael llai o effaith ar drigolion Gwynedd na thoriadau.

**Ystyriaethau perthnasol – Asesiad Effaith Cydraddoldeb**

Ar gyfer y penderfyniad heddiw mae tri chynllun lle mae angen ystyried yr asesiad effaith cydraddoldeb cyn dod i benderfyniad (gweler Atodiad 3) sef:

- A8 'Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad'
- C25 'Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cefnogi systemau tu allan i oriau'
- P6 a P7 ' Dadgomisiynu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched De Gwynedd a Bangor'.

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Mae cyflwyno'r adroddiad hwn yn gam allweddol yn ein strategaeth i ymateb i'r her ariannol sydd yn ein wynebu fel Cyngor. Mae'n bwysig eithriadol, wrth gwrs, bod effaith unrhyw arbedion effeithlonrwydd yn eglur ac, yn y cyd-destun hwn, mae mewnbwn y gweithdai a gynhaliwyd a barn y Gweithgor Craffu Arbedion a'r Pwyllgor Craffu perthnasol yn ystyriaethau o bwys.

Yr un peth i'w gofio, wrth gwrs, yw bod natur ein strategaeth yn golygu bod unrhyw arbediad effeithlonrwydd sydd ddim yn cael ei weithredu yn cynyddu'r gofyn i dorri a bydd canlyniadau'r gyfundrefn toriadau, wrth gwrs, yn cael mwy o effaith ar drigolion.

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'r adroddiad yn ganlyniad proses o werthuso a chraffu cynnigion am arbedion effeithlonrwydd. Disgwylir felly fod y cynnigion wedi bod yn destyn arweiniad cyfreithiol penodol ble'n berthnsol ynglyn a'r cynnig a proses gwireddu. Dylid nodi hefyd fod y cynnigion wedi bod yn destyn Asesiad Ardrawiad Cydraddoldeb ( Atodlen 3 ) a chyfeirir aelodau yn benodol at y cynnwys wrth ystyried y cynnigion.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Er bu sawl datblygiad diweddar, cadarnhaf fod y bwlch ariannol i'w gau dros y cyfnod rhwng eleni a 2017/18 yn parhau i fod tua £34m, yn unol a'r strategaeth trafodwyd ym Medi. Rhaid dal ati gyda'r strategaeth arbedion effeithiolrwydd heb unrhyw oedi, ac uchafu'r swm gellid cynhaeafu o'r cynlluniau a gynigwyd ar gyfer 2015/16, er mwyn isafu'r balans go sylweddol bydd raid sicrhau o dorri gwasanaethau.

Cyflwynir sylwadau pellach ar y cynlluniau penodol, fel bo angen, ar lafar yng nghyfarfod y Cabinet.

**Atodiadau**

Atodiad 1 – Argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol
Atodiad 2 – Rhestr o'r cynigion effeithlonrwydd
Atodiad 3 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb A8, C25, P6 a P7

**ATODIAD 1 - Argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol i'r Cabinet**

| **Cyf** | **Teitl y cynnig** | **Argymhelliad y Pwyllgor Craffu** | **Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins** |
|---|---|---|---|
| DaCh4 | Cwtogi cyllideb cyhoeddusrwydd Cofrestru Etholwyr | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu beth fyddai effaith y cynllun ar ein gallu i sicrhau dyletswydd statudol i gofrestru etholwyr. | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu'r cynllun |
| SaG6 | Ymchwil a Dadansoddeg | Gweithgor yn nodi y dylid dal y cynnig yn ôl am y tro hyd nes bydd sefyllfa toriadau yn glir ac ystyried llunio achos busnes i gadw'r uned fel y mae hi. | Argymell dal y cynnig yn ôl am y tro hyd nes bydd sefyllfa toriadau yn glir |
| C25 | Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cefnogi systemau tu allan i oriau | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu beth fyddai effaith y cynllun ar allu'r gwasanaethau perthnasol i gynnal gwasanaeth tu allan i oriau pe bai'r systemau yn methu. | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol graffu'r cynllun ym mis Ionawr |
| OED | Cynigion ym maes Oedolion | Angen sicrhau amserlen ar gyfer y cynigion a'r angen i gael cynlluniau prosiect cadarn er mwyn sicrhau y byddwn yn gwireddu'r cynigion, ac y dylid tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol at yr angen hwnnw. | Amserlen gweithredu bellach wedi ei dderbyn |
| OED13 | Addasu cytundebau darparwyr | Argymhellir cyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn ag effaith posib y cynnig i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol. | Adrodd yn ôl o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 11/12/14 yng nghyfarfod y Cabinet |
| Rh9 | Rhoi'r gorau i swyddogaethau anstatudol – Gwasanaethau Rheoli Pla | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael eglurder ar wir effaith y prif opsiynau gan gyfarch y cwestiynau isod:<br>- Petasai'r ffi yn codi er mwyn adfer y gost o ddarparu'r gwasanaeth, a | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau graffu'r cynllun |

| Cyf | Teitl y cynnig | Argymhelliad y Pwyllgor Craffu | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|
| | | fyddai dal yn gystadleuol gyda'r sector breifat?<br>- Beth fyddai'r effaith o godi'r ffi ar adrannau eraill Cyngor Gwynedd? | |
| Rh11, Rh12 a Rh27 | Lleihad o 10% yng nghyllidebau Gwarchod y Cyhoedd (3 cam) | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael eglurder ar wir effaith y cynigion ar ôl dechrau gwireddu. | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau gael eglurder ar wir effaith y cynigion ar ôl dechrau gwireddu. |
| Rh16 | Hysbysebu ceisiadau cynllunio yn y wasg | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol gael gwell eglurder am yr effaith potensial y gallai'r cynnig ei gael ar y broses ddemocrataidd. | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau graffu'r cynllun |
| PB1 | Caffael | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol sicrhau bod cydbwysedd cywir rhwng arbed arian a chadw'r budd yn lleol. | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau graffu'r cynllun |
| PB24 | Trefn Gwahanol o Newid Lampau | Argymhellir i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol edrych a chymharu'r cynnig gyda'r drefn bresennol ("bulk change") er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y dewis cywir. Cyflwynwyd y drefn "bulk change" fel ffordd o arbed arian yn y lle cyntaf. | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau graffu'r cynllun |
| A5 | Addysg Feithrin | Argymhellir cyflwyno gwybodaeth bellach ynglŷn ag effaith posib y cynnig i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol. | Argymell i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau graffu'r cynllun |
| P6 | Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched De | Gofyn i'r Cabinet beidio gweithredu'n syth a chyfeirio'r cynnig i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn iddynt wneud craffu | Adrodd yn ôl o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 11/12/14 yng nghyfarfod y Cabinet |

| Cyf | Teitl y cynnig | Argymhelliad y Pwyllgor Craffu | Argymhelliad yr Aelod Cabinet y Cyng. Peredur Jenkins |
|---|---|---|---|
| | Gwynedd | pellach ar yr effaith, ond ar y dealltwriaeth y bydd angen penderfyniad cyn 1 Ebrill, 2015. | |
| P7 | Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched Bangor | Gofyn i'r Cabinet beidio gweithredu'n syth a chyfeirio'r cynnig i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau er mwyn iddynt wneud craffu pellach ar yr effaith, ond ar y dealltwriaeth y bydd angen penderfyniad cyn 1 Ebrill, 2015. | Adrodd yn ôl o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau 11/12/14 yng nghyfarfod y Cabinet |

(grey box) Cynigion i'w gwireddu yn 2015/16

**ADRAN ADDYSG**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| A1 | Ffordd Gwynedd - Uned Cyflogau a Chontractau | Adolygu systemau cyfredol adnoddau dynol y gwasanaeth addysg a defnyddio Ffordd Gwynedd i 'daclsuo'r' drefn gweithredu | Dim effaith gan mai gwella trefniadau gweithredu mewnol yw'r bwriad | 38,681 | 1 |
| A3 | Cronfa Blas am Oes | Creu 1 swydd barhaol yn lle'r ddwy swydd dros dro caiff eu cyllido o'r gronfa Blas am Oes. | Dim effaith | 49,770 | 1 |
| A4 | Dileu swydd wag yn yr Uned Gefnogi | Yn gyfredol, mae'r tîm yn cynnwys Rheolwr, 7 Swyddog SIMS llawn amser (gan gynnwys un swydd wag), 2 swyddog SIMS tymor ysgol a 2 gyfieithydd llawn amser.<br><br>Y cynnig yw dileu'r swydd wag. | Dim effaith gan bod y swydd yn wag | 24,885 | 1 (G) |
| A5 | Arbedion Addysg Feithrin | Newid polisi mynediad ysgolion Gwynedd i dderbyn plant 3 gwaith y flwyddyn.<br><br>Byddai hyn yn galluogi ysgolion i dderbyn plant oed meithrin yn y tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar y Mudiad Meithrin i ddarparu gwasanaeth addysg.<br><br>Pe byddai modd darganfod gofod mewn ysgol i bob plentyn, gallwn wneud i ffwrdd gyda'r angen am Athrawon 10% | Opsiynau a gwasanaeth ehangach i rieni gan roi dewis iddynt o roi eu plant mewn ysgol neu mewn cylch meithrin. Hyfywedd Cylchoedd Ti a Fi a'r Mudiadau Meithrin. | 210,500 | I'w gadarnhau |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| A8 | Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad | Amcan yr Adolygiad yw:<br>'Sicrhau bod plant a phobol ifanc (rhwng 0-25 oed) sydd ag anghenion addysgol arbennig yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.'<br><br>Y CYNIGION<br>Er mwyn gwireddu'r canlyniadau yma cyflwynir cyfres o gynigion cysylltiedig:<br>• Un Cynllun Datblygu Unigol<br>• Targedu'r blynyddoedd Cynnar<br>• Targedu trosglwyddo cynradd/ uwchradd (blwyddyn 5)<br>• Rhaglen Hyfforddiant Ail Strwythuro'r Gweithlu<br>• Ail drefnu system fformiwla cyllideb ADY I'r ysgolion<br>• Sefydlu system tracio/ data effeithiol<br>• Ail drefnu'r Gwasanaeth<br>• Adolygu cynllun comisiynu'r CBAAA<br>• Uchafu rôl yr ysgolion arbennig. | • Rhaglen Hyfforddiant trylwyr yn arwain i well adnabyddiaeth o gyflyrau a'r ymyrraeth gorau ar sail tystiolaeth;<br>• Gwella dealltwriaeth y rhieni - a'r cyfathrebu gwell yn arwain i allu cynnig opsiynau gwahanol, effeithiol ar gyfer y plentyn - mewn cyd weithrediad efo'r rhieni;<br>• Un cynllun integredig yn adnabod holl anghenion y plentyn a chyd weithio gwell efo asiantaethau eraill.<br>• Uchafu potensial yr ysgolion arbennig. | 295,207 | I'w gadarnhau |
| **CYFANSWM** | | | | **619,043** | **3** |

**ADRAN ADNODDAU DYNOL**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| AD1 | Lleihau oriau dau swyddog hyfforddi a dysgu | Lleihau oriau dau swyddog Hyfforddi a Dysgu trwy ddefnyddio technoleg fel e-ddysgu | Dim effaith uniongyrchol oherwydd y bydd cyfleoedd hyfforddi a dysgu yn parhau ond yn cael eu cynnig drwy gyfryngau eraill megis e-ddysgu | 21,745 | 0.4 |
| AD2 | Ffordd Gwynedd | Cynnal adolygiad manwl ar un uned wasanaeth o fewn yr adran er mwyn darganfod gweithrediadau sydd ddim yn ychwanegu gwerth i bobl Gwynedd | Dim effaith gan mai gweithrediadau sydd ddim yn ychwanegu gwerth fydd yn cael eu ddiddymu | 116,000 | 6 |
| AD3 | Lleihau cyllideb Coleg Menai | Yn hanesyddol caniatawyd cyllideb o £191,000 ar gyfer hyfforddeon hyfforddi Gwynedd ar gyfer lleoliadau yn bennaf mewn ysgolion i gymorthyddion dosbarth. Mae tanwariant hanesyddol o £135k felly cynigir lleihau'r gyllideb yn sgil y tanwariant yno. | Mae potensial y bydd llai o gyfleoedd i bobl ifanc | 100,000 | 0 |
| AD4 | Dileu Swydd weinyddol | Arbed swydd weinyddol wrth wella effeithlonrwydd gweinyddol a chyflwyno EDRMS | Dim effaith gan y byddwn yn gwneud yr un peth gyda llai o adnoddau | 18,283 | 1 (G) |
| AD5 | Lleihau nifer o hyfforddeion proffesiynol | Lleihau nifer o hyfforddeion proffesiynol o 7 i 6 drwy wastraff naturiol | Llai o ymgeiswyr ar gyfer swyddi yn y dyfodol | 37,000 | 1 |
| AD6 | Cyflwyno System Adnoddau Dynol electonig | Dileu un swydd yn sgil gwella effeithiolrwydd trin data Adnoddau Dynol, dyblygu a rhoi mynediad uniongyrchol at wybodaeth i reolwr (e.e. adroddiad salwch, proffiliau ayyb) | Dim effaith | 36,509 | 1 |
| AD7 | Ailstrwythuro'r Uned Personnel, Iechyd, Diogelwch a Lles | Adolygu haenau rheolaethol yr Adran gyfan ac ailstrwythuro un adain yn benodol | Dim effaith | 39,404 | 1 |
| AD8 | Ailstrwythuro tim rheoli'r adran ac unioni haenau rheolaethol | Adolygu nifer o Uwch Reolwyr yr adran gyda'r bwriad o leihau hyd at 20% a chysoni haenau rheolaethol | Dim effaith gan y byddwn yn gwneud yr un peth gyda llai o adnoddau | 53,540 | 1 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| AD9 | Trefniadau amgen ar gyfer Gweithio'n Unig | Cyflwyno trefniadau adranol unigol ar gyfer gweithio'n unig ac arbed y ffioedd a'r costau presennol (e.e. terfynnu defnydd i system ffon a sefydlu 'buddy systems') | Dim effaith | 3,819 | 0 |
| DaCh12 | Lleihau costau caffael yr Argraffdy | Mae sail targed arbedion effeithlonrwydd yn nodi bod modd cyflawni arbedion o £11,500 trwy wella trefniadau caffael ac mae'r rhain i'w priodoli i'r Argraffdy gan mai yno mae gweithgaredd caffael yr Adran yn digwydd. Bwriedir i'r arbedion gael eu gwireddu trwy ail-negodi cytundebau am nwyddau a cyflenwadau. | Ni ragwelir unrhyw effaith o sylwedd ar bobl Gwynedd | 11,500 | 0 |
| **CYFANSWM** | | | | **437,800** | **11.4** |

**ADRAN CYLLID**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C1 | Ail strwythuro Refeniw | Ail strwythuro rheolwyr yr Uned Trethi, Budd-dal, Incwm a Dyledwyr<br>1. Lliflinio strwythur rheolaethol yr adran ar gyfer y dyfodol.<br>2. Hwyluso cynlluniau olyniaeth.<br>3. Paratoi ar gyfer y her Diwygio Lles o ganlyniad newidiadau Llywodraeth Canolog a colli sybsidi ynghlwm.<br>4. Moderneiddio yr adain.<br>Bydd y newidiadau yn cael eu dygymod a drwy ail beiriannu prosesau busnes yr adran ar ddull Ffordd Gwynedd i sicrhau fod gwaith ddim yn cael ei ddyblygu, bod llinellau rheolaeth wedi ei lliflinio i fod yn glir ac yn generic, yn hytrach na bod yn arbenigol a thrwy hyn sicrhau gwasanaeth o ansawdd uchel sy’n effeithiol ac yn effeithlon i holl drigolion Gwynedd. | Dim effaith oherwydd bwriedir parhau i ddarparu’r un gwasanaethau gyda llai o adnoddau. | 147,000 | 9 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C2 | Trethi – Lleihau Costau Adfer Asiant (beili) | Gwneud i ffwrdd â thalu cost am adroddiadau o'r cwmni gorfodaeth (y beiliaid). Pwrpas adroddiad y 'beili' (fydd yn dal i gael ei baratoi) yw darparu gwybodaeth am ei gweithred yn casglu neu geisio casglu dyled. Defnyddir yr adroddiadau ar gyfer ymateb i ymholiad gan drethdalwr, gwneud cytundeb talu, olrhain, dileu, atafael enillion / budd dal, neu traddodi i garchar.<br><br>Mae newid mewn deddfwriaeth ar gostau Asiant Adfer yn golygu i'r dyledwr dalu mwy o gostau ei hun o 2014/15 ymlaen. Bydd arbediad i'r adran dros gyllideb blwyddyn gyfan, gyda'r effaith yn cychwyn yn yr ail chwarter. | Dim effaith oherwydd nid yw'r cynllun yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau i bobl Gwynedd. | 20,000 | 0 |
| C3 | Biliau Treth Cyngor - cyfathrebu ar ffurf electronig | Arbed cost papur, postio ac argraffu trwy beidio amgau'r taflenni esboniadol gyda'r biliau treth cyngor blynyddol (tua 60,000) a'r nodiadau atgoffa perthnasol yn ystod y flwyddyn. | Ystyrir mai bychan iawn yw'r effaith ar bobl Gwynedd gan nad oedd adwaith werth sôn amdano i'r datblygiad yma pan anfonwyd biliau treth cyngor 2014/15. | 5,000 | 0 |
| C4 | Lleihau cost hyfforddiant trwy wneud gwell defnydd o gytundeb Microsoft | Mae'r cytundeb arwyddwyd yng Ngorffennaf 2013 yn cyflwyno 80 diwrnod hyfforddiant ar dechnoleg Microsoft bob 3 blynedd. Gallai'r gwasanaeth TG fanteisio ar y rhain ac ildio cyllideb adrannol fyddai'n gyfatebol i brynu 80 diwrnod o hyfforddiant technegol. | Dim effaith. | 5,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C5 | Codi incwm drwy werthu hen gyfarpar | Mae'r Cyngor yn buddsoddi'n sylweddol a pharhaus mewn cyfarpar TG, sy'n cael ei uwchraddio ar gylch rhwng 4 a 6 mlynedd, yn ddibynnol ar y math o gyfarpar. Pan fyddo'r cyfarpar yn cyrraedd diwedd eu hoes i'r Cyngor, maent yn cael eu ail-gylchu, ond nid yw'r Cyngor yn manteisio ar geisio adnabod gwerth i godi incwm am y cyfarpar. Yn ystod 2013/14, gwerthwyd ambell eitem ar eBay a bwriedir cynyddu'r gweithgaredd yma ac ymchwilio i ffyrdd eraill o godi incwm am hen gyfarpar.<br><br>Cyfrifwyd y ffigwr o £3k ar sail llwyddiant gweithrediad rhannol mewn ocsiynau hyd yma. Er 'rydym am werthu offer trwy ocsiwn, mae'r cynllun yn gadarn gan fod yr amcangyfrif yn un go geidwadol. | Dim effaith. | 3,000 | 0 |
| C6 | Lleihau costau meddalwedd ariannol | Wrth gaffael trwyddedau system yn effeithiol gan 'ABS' (Advanced Business Solutions), ein cyflenwr o'r meddalwedd e-Financials ar gyfer rheolaeth ariannol), llwyddwyd i negodi cost is am gynnal systemau ledger, taliadau, ayb. | Dim effaith | 15,000 | 0 |
| C7 | Lleihau costau ymgynghorwyr arbenigol | Negodi ffioedd mwy effeithiol am gyngor arbenigol am faterion trethiant, rheolaeth trysorlys, ayb. Rydym wedi gweithio ar hyn ers tro ac mae'r ffioedd gwell eisoes wedi'u negodi am flynyddoedd dilynol gyda sawl ymgynghorydd. Felly, gellid dibynnu ar arbedion y cynllun sydd eisoes ar droed. | Dim effaith | 10,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C8 | Peidio llenwi swydd hyfforddai cyfrifeg adrannol | Rhoi'r gorau i ariannu swydd hyfforddai cyfrifeg ychwanegol o gyllideb Cyllid (swydd ychwanegol i'r rhai corfforaethol). Nid yw'n effeithio cynllun corfforaethol o ran hyfforddeon proffesiynol.<br><br>Mae Gwynedd wedi penodi sawl cyfrifydd / rheolwr presennol o'r cynllun hyfforddeon, ond beth sydd yma yw dileu'r ychwanegiad adrannol i'r rhaglen hyfforddeion corfforaethol. Neilltuwyd cyllideb adrannol 2 flynedd yn ôl i ariannu ail swydd hyfforddai Chartered Institute of Public Finance and Accountancy (CIPFA), ond rwan rhaid arbed yn rhywle. | Dim effaith ar staff cyfredol – peidio llenwi swydd ar derfyn cytundeb hyfforddai sydd mewn swydd. | 20,000 | 0 |
| C9 | Caffael trefniadau hyfforddi gwahanol | Sicrhau dulliau gwahanol o gyflenwi hyfforddiant cyfrifeg proffesiynol (ACCA ym Mangor yn lle CIPFA yn Lloegr, dysgu ar-lein, ayb), a lleihau costau llety, teithio, ayb.<br><br>CIPFA fyddai ein dewis 1af, oherwydd arbenigedd sector gyhoeddus, ond mae ACCA yn gymhwyster cyfartal gyda'r CCAB (Consultative Committee of Accountancy Bodies - umbrella group of chartered professional bodies of British qualified accountants). | Dim effaith. | 20,000 | 0 |
| C10 | Lleihau gwariant ar gyflenwadau swyddfa | Camau amrywiol ar draws holl unedau'r Adran i leihau cost a defnydd o wasanaethau a chyflenwadau. | Dim effaith. | 20,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C11 | Rhesymoli cost teithio | Gweithredu cynllun faniau i arolygwyr trethi, a thynhau rheolaeth dros deithio staff Cyllid, llai o gyfarfodydd, ayb. Rydym wedi darparu (y Cyngor yn prynu) faniau yn lle talu lwfansau teithio i staff sy'n teithio llawer gyda'u swyddi.<br><br>Mae'r rheolwyr/staff yma eisoes yn defnyddio GIS yn rheolaidd i optimeiddio teithiau. | Dim effaith. | 18,500 | 0 |
| C12 | Casgliad o fân arbedion adrannol | Llwyddwyd eisoes dros amser i leihau costau yn sgîl sawl prosiect i uchafu gwaith eletronig, ailstrwythuro yn dilyn lliflinio gweinyddiaeth adrannol, ayb. Mae'r cynnig yn cynhaeafu arbedion o ailstrwythuro blaenorol, lle neilltuwyd cyllideb rhan o swydd yma ag acw dros sawl blwyddyn. Roedd yn fwriad defnyddio'r gyllideb yma ar gyfer sefydlu a llenwi swydd weinyddol, ond rhaid gwneud heb hynny rwan, a does dim deilydd mewn swydd. | Dim effaith. | 41,000 | 0 |
| C13 | Ffioedd am wasanaeth Cyflogau | Denu incwm allanol ychwanegol / priodol a lleihau costau gweithredol am wasanaeth talu cyflogau. | Dim effaith. | 21,000 | 0 |
| C14 | Ffioedd am ddefnydd o dechnoleg arbenigol Cyflogau | Denu incwm allanol ychwanegol / priodol am ddefnydd o dechnoleg "EDI" (Electronic Data Interchange) i gyfathrebu'n electroneg gyda "HMRC". | Dim effaith. | 10,000 | 0 |
| C15 | Caffael system cyflogau yn fwy effeithiol | Peidio adnewyddu cytundeb meddalwedd talu costau teithio staff (system PUMA) gan y gellir defnyddio meddalwedd Cyborg presennol i wneud y gwaith. | Dim effaith. | 5,500 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C16 | Defnyddio dogfennau eletronig a'r rhyngrwyd | Defnyddio fformat dosbarthu gwybodaeth ariannol wahanol, sef electronig a'r rhyngrwyd, yn hytrach na’r dulliau papur traddodiadol, a thrwy hynny arbed ar gostau argraffu a phostio ar gyfer taflenni cyllidebol i’r cyhoedd, llyfrau cyllideb i aelodau, llyfrau cyllideb i swyddogion, copiau o'r cyfrifon blynyddol (cyn archwiliad, wedyn terfynol), ayb.<br><br>Wedi'r newid, wrth ddefnyddio dogfennau electronig, rhoddir lincs i'r wefan, ayb, ar y biliau treth, mewn e-byst at aelodau a swyddogion, ayb. Cynhyrchir isafswm o gopiau papur o'n dogfennau ar gyfer y rhai sydd ei wir angen, pobl fregus, ayb. Ar gais gan gwsmer / dinesydd, darperir y wybodaeth ar bapur. | Llai o wybodaeth ariannol drwy’r post, ayyb, a fwy o ddefnydd drwy’r fforwm electroneg. | 15,000 | 0 |
| C17 | Ailstrwythuro staffio'r Unedau Cyllid | Dileu 2 swydd rheolaethol o fewn yr Unedau Cyllid. Bydd hyn yn lleihau'r nifer staff proffesiynol sy'n darparu cyngor ariannol i reolwyr gwasanaethau, ond bwriedir grymuso cyfrifwyr er mwyn cyflawni'r gofyn gyda llai o adnodd. | Dim effaith oherwydd bwriedir parhau i ddarparu’r gwasanaethau angenrheidiol gyda llai o adnoddau. Bwriedir dygymod â’r newidiadau yma drwy sicrhau fod gwaith yn cael ei flaenoriaethu ar ddull Ffordd Gwynedd, a thrwy hyn sicrhau parhad o wasanaeth o ansawdd uchel sy’n effeithiol ac yn effeithlon i adrannau’r Cyngor a thrigolion Gwynedd. | 90,000 | 2 |
| C18 | Ailstrwythuro staffio Cyfrifeg canolog. | Dileu un swydd ar lefel cyfrifeg technegol drwy ailstrwythuro a dosrannu swyddogaethau cyfalaf, rheolaeth a systemau. | Dim effaith. | 36,500 | 1 (G) |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C19 | Denu incwm allanol ychwanegol am waith cyfrifeg | Codi ffioedd priodol am waith a gwasanaethau ariannol fel cefnogi cyd-bwyllgorau, a chyrff allanol eraill, a'i ymrwymo i swyddi cyfredol. Does dim ymrwymiad ychwanegol i adrannau eraill y Cyngor (Addysg a Rheoleiddio) sydd yn ariannu'r cyd-bwyllgorau mae Gwynedd yn lletya. Drwy hyn byddwn yn ffurfioli'r defnydd o incwm i ariannu ein ymrwymiadau cyllideb craidd, yn hytrach na'i drin fel arian ychwanegol. | Dim effaith. | 20,000 | 0 |
| C20 | Rhesymoli staffio'r Uned Taliadau | Diddymu swydd rhan amser ac adolygu trefniadau prosesu anfonebau.<br><br>Bydd y trefniadau prosesu anfonebau yn cael eu newid yn raddol a pharhaus. | Ni ragwelir effaith ar gyflenwyr gwasanaethau a chredydwyr y Cyngor, ond bwriedir datblygu trefniadau prosesu anfonebau i ymateb i'r adnoddau perthnasol fydd ar gael. | 17,900 | 0.5 |
| C21 | Lleihau darpariaeth goramser a staff wrth gefn yn Cyflogau | Yn sgil ailstrwythuro'r Uned Cyflogau a'r newidiadau sylweddol a gyflwynwyd i'r trefniadau a phrosesau perthnasol, mae camau ar droed i newid trefniadau ymhellach ddylai arwain at arbedion mewn darpariaeth goramser a staff wrth gefn.<br><br>Newidwyd eisoes y trefniadau rheolaethol a goruchwylio, ynghyd ag ail-ddosbarthu rhai cyfrifoldebau. Dan y drefn newydd, llwyddwyd i ysgogi diwylliant cynhyrchiol a chydwybodol, sy'n isafu'r angen i weithio oriau ychwanegol. | Dim effaith. | 10,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C22 | Lleihau costau banc | Yn dilyn caffael gwasanaethau banc yn effeithiol, mae'r ffioedd a chostau yn lleihau trwy, yn bennaf, uchafu trafodion electronig. Er enghraifft, fe welir gostyngiad yn y nifer o sieciau a ddefnyddir, a chynnydd yn y defnydd o drafodion electronig perthnasol, fel taliadau drwy BACS. Roedd y nifer o sieciau a ddefnyddiwyd yn 2006-07 yn 65,000, ac yn 2013-14 wedi gostwng i 23,000.<br><br>Enghraifft arall a welir ydi cynnydd yng ngwerth y taliadau a dderbynnir yn electronig (o'i gymharu â derbyn taliad drwy arian), ac sydd wedi dyblu mewn gwerth o'i gymharu â chwe mlynedd yn ôl.<br><br>Rydym yn parhau i weithredu i geisio uchafu ymhellach ar y lefel o drafodion electronig a ddefnyddir. | Trethdalwr yn gweld budd o lwyddiant i ostwng costau gweithredol y Cyngor. | 30,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C23 | Ailstrwythuro Archwilio Mewnol | Ail ddylunio trefniadau gwaith Archwilio Mewnol, fydd yn caniatáu ail strwythuro staffio, gan ddileu 1 swydd Uwch Archwiliwr a 2 swydd Archwiliwr.<br><br>Cryfhau trefniadau rheolaethol Archwilio Mewnol mewn ymateb i newidiadau i strwythur uwch reolaethol yr Adran, gan greu un swydd Rheolwr Archwilio Mewnol a dileu 1 swydd arweinydd tîm.<br><br>Lleihau costau gweinyddol a gorbenion, a cynyddu incwm trwy gystadlu am waith allanol.<br><br>Bydd yn gyfle i Archwilio Mewnol newid ffocws ei waith er mwyn canolbwyntio ar brif risgiau strategol a gweithredol y Cyngor a sicrhau mai materion sydd yn wirioneddol bwysig i bobl Gwynedd sydd yn cael sylw. | Ni fydd pobl Gwynedd yn gweld yr effaith yng ngwaith dydd i ddydd yr Awdurdod. | 103,250 | 3 |
| C24 | Denu incwm allanol am ddarparu gwasanaeth adfer trychineb (TG) | Mae gan Gyngor Gwynedd ofod y gall ei ddefnyddio i eraill roddi cyfarpar TG yn y Ganolfan Ddata. Byddai hyn yn rhoi cyfle i sefydliadau eraill ddefnyddio’r Ganolfan Ddata fel adnodd adfer trychineb. Mae trafodaethau ar waith gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar gyfer cynnig y gwasanaeth yma. | Dim effaith. | 3,500 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C25 | Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cefnogi systemau tu allan i oriau | Mae’r gwasanaeth TG yn gweithredu cynllun cefnogi tu allan i oriau craidd y swyddfa, er mwyn cefnogi gwasanaethau, megis Llyfrgelloedd, Canolfannau Hamdden a gweithwyr Gofal, sydd a dibyniaeth ar systemau. Mae’r tîm ar alwad pob dydd o’r flwyddyn ac yn gwasanaethu ar gyfnodau ble mae’r swyddfa ar gau.<br><br>Nid yw'r defnydd o’r gwasanaeth yn eang, ac ar gyfartaledd mae tua 2 achos y mis. Mae hyn yn isel, ond mae'r problemau sy'n codi yn amrywio o effeithio unigolion, grŵp o weithwyr, neu'r sefydliad cyfan. E.e. ar 10/06/14, methodd y system aer awyru a bu'r tîm ar-alwad yn y ganolfan ddata drwy'r nos yn atgyfodi'r systemau erbyn 09:20. Pe na byddent wedi cael eu galw allan, byddai'r gwasanaeth i 2,350 o weithwyr a'r cyhoedd wedi cael ei effeithio drwy'r dydd.<br><br>Mae ildio'r gwasanaeth yma'n risg oherwydd ei natur fel cost "di-angen" os yw popeth yn iawn, ond yn fuddsoddiad gwerth chweil pan fo pethau'n mynd o chwith. | Fe allai gael effaith ar y bobl sy’n defnyddio gwasanaethau’r Llyfrgell, Hamdden a Gofal. Wedi trafod gyda Swyddog Polisi Cydraddoldeb y Cyngor, casglwyd fod “risg cydraddoldeb sylweddol (ac o bosib annerbyniol) ynghlwm a’r cynnig. Yng nghyd-destun mynediad at y system RAISE, byddai’r effaith yn taro’r grwpiau mwyaf bregus (e.e. pobl anabl, plant, pobl hyn, pobl sydd ddim yn siarad y Gymraeg na’r Saesneg ayb) a hynny o bosib mewn sefyllfaoedd argyfyngus. Byddai angen i Asesiad Effaith Cydraddoldeb geisio dod o hyd i ryw ddull o ddileu neu ostwng yn sylweddol unrhyw risg o’r fath.” | 39,500 | 0 |
| C26 | Rhesymoli systemau technegol drwy gaffael yn ddoeth | Mae cynllun trwyddedu Microsoft yn rhoi darnau ychwanegol o feddalwedd i ni eu defnyddio, y tu hwnt i’r fersiynau cyfredol o Windows ac Office. Gallai rhai darnau o’r meddalwedd yma gael eu defnyddio yn lle pecynnau eraill sy’n bodoli gan wneud arbedion ar ffioedd sy’n cael eu talu am gynnal rhai pecynnau cyfredol. | Dim effaith. | 7,500 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| C27 | Ail gaffael y rhwydwaith PSBA | Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus, neu Public Sector Broadband Aggregate yw'r PSBA. Hwn yw rhwydwaith sy'n caniatáu sicrhau gwell gwerth am arian i sefydliadau fel ysbytai, prifysgolion, colegau, ayb, yn ogystal a sefydliadau llywodraeth leol yn eu defnydd o gyfathrebu band eang.<br><br>Mae cyfnod cytundebol y Cyngor gyda rhwydwaith-ardal-eang y PSBA yn dod i ben yn ystod chwarter 4 2014/15. Mae 19 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru yn defnyddio'r PSBA, sydd yn wasanaeth gan Lywodraeth Cymru drwy law cwmni masnachol Logicalis UK. Bellach mae amryw o wasanaethau ar draws Gwynedd wedi cytundebu i'r PSBA. Felly, dylai'r Cyngor fanteisio ar hyn drwy ail negodi ein cytundeb i adnabod arbedion (sy'n gyson gyda'r arbedion gyflawnwyd gan awdurdodau sydd wedi cytundebu'n ddiweddar gyda'r PSBA). | Dim effaith. | 80,000 | 0 |
| C28 | Newid yn strwythur rheolaethol yr Uned TG | Newid yn yr haen rheolaethol drwy newid y Swydd Peiriannydd Perfformiad i Reolwr Cyfrif, a'r raddfa o PS3 i S4 (nid oes gan y swydd bresennol gyfrifoldeb am staff).<br><br>Mae cyfrifoldeb mesur perfformiad yn bodoli oddi fewn y swyddi rheolwyr cyfrif yn barod, a gall y gwaith sy'n cael ei wneud yn barod barhau, gyda'r rheolwr cyfrif newydd yn atebol i'r Arweinydd Tîm. | Dim effaith. | 7,900 | 0 |
| **CYFANSWM** | | | | **822,050** | **15.5** |

**ADRAN ECONOMI A CHYMUNED**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| EaCh1 | Gweinyddiaeth unedau gwasanaeth | Gweithredu arbedion ar draws yr adran drwy EDRMS, caffael, rheoli galw, argraffu a theithio | Llai o ddogfennaeth a llenyddiaeth yn cael i argraffu i'r ansawdd uchaf<br>Staff yn mynychu llai o gyfarfodydd mewn cymunedau | 53,000 | 0 |
| EaCh2 | Arbedion effeithlonrwydd twristiaeth a marchnata | Gwneud addasiadau i'r rhaglen waith:<br>- Mynychu llai o sioeau / arddangosfeydd hyrwyddo Prydeinig<br>- Peidio cyfrannu i adolygiadau ymchwil Steam<br>- Lleihau yr arian yn y gyllideb craidd ar gyfer digwyddiadau gan fod y mater yn cael ei ariannu trwy'r cynllun strategol<br>- Lleihau y nifer ymgyrchoedd marchnata twristiaeth | Llai o waith hyrwyddo'r sector twristiaeth ac felly, potensial i ddennu llai o ymwelwyr i Wynedd. Lleihau cyfleoedd i ddatblygu y sector a uchafu buddion a chyflogaeth o dwristiaeth a digwyddiadau. | 19,500 | 0 |
| EaCh3 | Darpariaeth gwybodaeth i ymwelwyr | >Adolygu darpariaeth canolfannau gwybodaeth i ymwelwyr sirol (wedi adolygu y maes yn 2014 – arbedion effeithlonrwydd o £23k wedi eu gwireddu)<br>>Craffu cyfleoedd i roi mwy o bwyslais ar y we a phlatfform digidol<br>>Adolygu fframwaith staffio a chreu strwythur gwirfoddoli er mwyn rhesymoli ac uchafu ansawdd.<br>>Cydweithio gyda phartneriaid allweddol e.e. Parc Cenedlaethol a gwasanaethau eraill e.e. Llyfrgelloedd / Canolfannau Hamdden / Neuadd Dwyfor er mwyn rhannu adnoddau.<br>>Targedu cyfleon cyllido Ewropeaidd i drawsnewid y gwasanaeth a gwireddu'r model gweithredu newydd. Gallai hyn uchafu gwerth cyllidebau'r gwasanaeth a lleihau costau'r Cyngor yn y tymor hir<br>> Darparu model gweithredu newydd erbyn diwedd bl3 o'r cyfnod arbedion / effeithlonrwydd nesaf | Llai o waith hyrwyddo sector twristiaeth<br>Lleihau cyfleoedd i ddatblygu'r sector a uchafu buddion a chyflogaeth o dwristiaeth. | 25,000 | I'w gadarnhau |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| EaCh4 | Marchnata ardal Eryri Mynyddoedd a Mor | > Adolygu llyfryn Gwybodaeth ymwelwyr a llyfrynnau cysylltiol a rhesymoli eu cynnwys a'u cynhyrchiad er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar y we a phlatfform digidol. (Cytundeb presennol yn dod i ben gyda chynhyrchiad taflen 2015).<br>>Ymgynghori gyda phartneriaid allanol – Cyngor Conwy a dros 200 o fusnesion sydd yn hysbysebu er mwyn cytuno ar fodel gweithredu cynaliadwy effeithiol<br>>Craffu cyfleoedd cyd weithio yn Adrannol er mwyn cyrraedd ein amcanion e.e hamdden / byw yn iach, agenda awyr agored.<br>>Adnabod cyfleon cyllido Ewropeaidd er mwyn cyflawni'r weledigaeth newydd yn dilyn yr adolygiad.<br>>Darparu model gweithredu newydd erbyn diwedd bl3 or cyfnod arbedion / effeithlonrwydd nesaf | Llai o waith hyrwyddo'r sector twristiaeth allai arwain at lai o ymwelwyr â'r sir, ac felly llai o fuddiannau economaidd.<br>Lleihau cyfleoedd i ddatblygu'r sector ac uchafu buddion a chyflogaeth o dwristiaeth. Ar sail ymchwil diweddar yn dilyn ymgyrchoedd marchnata, amcangyfrifir bod llyfryn Eryri Mynyddoedd a Môr yn cyfrannu dros £4 miliwn i economi Gwynedd ar sail fformiwla sy'n cymryd i ystyriaeth niferoedd sy'n ymweld yn dilyn derbyn y llyfryn a gwariant cyfaratalog tra ar ymweliad. | 30,000 | 0 |
| EaCh5 | Gwasanaeth Cefnogi Busnes (Tim Asedau Busnes) | Addasu (lleihau) strwythur staffio presennol (£25k)<br>Lleihau cyllideb cynnal a chadw (£20k) | Dim effaith | 45,000 | 1 |
| EaCh6 | Rheoli Prosiectau Strategol | Adolygu trefniadau rheoli prosiectau o fewn yr Adran gyda'r bwriad o resymoli haenau rheoli ar draws Unedau Gwasanaeth<br><br>Golyga'r cynnig ail-strwythuro unedau gwasanaeth o fewn yr Adran sydd yn ymwneud a'r meysydd hyn gan ddiddymu un swydd rheolwr o'r strwythur presennol. Byddai'r cynnig hefyd yn lleihau adnodd o fewn yr Uned Prosiectau Economaidd Strategol sydd yn ymwneud a datblygu prosiectau. | Newid mewn trefniadau rheoli prosiectau ar draws yr Adran. Lleihad mewn capasiti'r Gwasanaeth i fod yn datblygu a gweithredu prosiectau datblygu'r economi i'r dyfodol. | 65,000 | 2 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| EaCh8 | Adolygu trefniadau rheolaeth traethau | Adolygu trefniadau gweithredol ar gyfer rheoli traethau ar hyd arfordir Gwynedd. Bydd yr adolygiad yn ystyried trefniadau presennol, gyda'r bwriad o adnabod blaenoriaethau i'r dyfodol (gan gynnwys trefniadau casglu ysbwriel).<br><br>Fel rhan o'r adolygiad byddai angen cynnal trafodaethau gyda Stad y Goron er mwyn cadarnhau cyfrifoldebau'r Cyngor ar hyd yr arfordir. | Newid mewn trefniadau rheoli'r traethau. Angen gwaith pellach er mwyn ystyried effaith. | 40,000 | 1 |
| EaCh9a | Neuadd Buddug | Mae'r Neuadd ar restr gwaredu'r Cyngor gyda'r amod bod angen darparu gwasanaeth amgen. Mae opsiynau wedi eu sgopio a Tîm Defnyddwyr wedi ei sefydlu. Rydym am greu darpariaeth gelfyddydol yn yr ysgol newydd. Mae'r arbedion yma yn ddibynnol ar y cytundeb gyda'r ysgol newydd a'r gymuned leol i ddarparu'r gwasanaeth. Mae'n debyg y bydd angen cynnig pecyn ariannol i'r ysgol barhau I raglennu sioeau, dramau a ffilmiau. Amcan posib yw £15,000 ond bydd angen i'r ysgol dalu costau rhedeg yr adeilad. Mae angen penderfyniad ar y staffio a phwy fyddai'n rhaglennu. Staff Neuadd Dwyfor sy'n rhaglennu ac yn rheoli cynorthwywyr sy'n gwerthu tocynnau ac yn arolygu gan ddilyn gofynion iechyd a diogelwch. | Fe all arwain at newid yn y math o wasanaeth a fydd yn bosib ei ddarparu o ran amrywiaeth ac amlder. Cynnar yw'r drafodaeth gyda'r Ysgol ond mae cytundeb i ddatblygu'r ddarpariaeth gelfyddydol yn neuadd yr ysgol. Mae holiadur wedi cael ei gylchredeg i gasglu adborth am y ddarpariaeth celfyddydol a'r ymateb i'r bwriad o gael ei ddarparu yn yr ysgol. Mae'r adborth yn dangos cefnogaeth i'r angen am ddarpariaeth celfyddydol er nid o reidrwydd yn Neuadd Buddug ei hun. Hefyd gall gael effaith ar dwristiaeth a'r economi os nad yw'r gwasanaeth yn darparu rhaglen pwrpasol ac addas. Gobeithir y gellir cynnig gwell gwasanaeth yn yr ysgol nac a ellir yn Neuadd Buddug ar hyn o bryd gan nad oes buddsoddiad wedi bod yn yr adeilad. Mae ystyriaeth yn cael ei roi i ddarparu gwasanaeth celfyddydau amgen yn ardal y Bala yn y cyfnod interim hyd nes bydd yr ysgol newydd yn agor. | 16,000 | I'w gadarnhau |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| EaCh9b | Neuadd Dwyfor | Adolygu strwythur staffio a darparu gwasanaethau rheng flaen Neuadd Dwyfor, Llyfrgelloedd a Chanolfan Gwybodaeth Twristiaid ar y cyd. mewn egwyddor ganfod arbedion i'r Adran.<br><br>Hefyd mae arbedion posib drwy leihau / newid sut mae'r ganolfan yn cael ei marchnata a chodi incwm. Mae'r arbedion yn ddibynnol ar y trafodaethau parthed cydweithio yn ystod y flwyddyn nesaf a chyfleoedd codi incwm os buddsoddir yn yr adeilad I ddenu rhagor o incwm. Mae cyfle hefyd I fuddsoddi yn y Neuadd drwy gyflwyno cais grant i Cyngor Celfyddydau Cymru am well cyfleusterau fel caffi, derbynfa, siop a seddi. | Gallai cydweithio i ddarparu un gwasanaeth gofal cwsmer ar y safle wella'r ddarpariaeth i bobl Gwynedd yn hytrach na chael 3 gwasanaeth yn darparu'r unigol. Byddai angen buddsoddiad ariannol yn y cyntedd a'r derbynfeydd i wireddu hyn.<br><br>Budd buddsoddi yn yr adeilad yn cynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth, codi incwm a darparu gwasanaethau ar y cyd a'r llyfrgell a'r ganolfan groeso. | 12,000 | I'w gadarnhau |
| EaCh9c | Archifau, Amgueddfeydd a'r Celfyddydau | Adnabod cyfleoedd I ddarganfod arbedion effeithlonrwydd trwy ymddeoliad hyblyg, cwtogi cyllidebau'r Gwasanaeth Celfyddydau Cymunedol ac arbediad yn dilyn gwerthiant Ty Meirion, Dolgellau a chau Canolfan y Crynwyr o ganlyniad i hynny.<br><br>Canolfan y Crynwyr – Bydd y ganolfan yn cau fis Mehefin yn dilyn gwerthiant yr adeilad. Mae rhai manylion i'w cadarnhau yn enwedig o ran unrhyw gymorth fyddai angen ei roi i sefydlu arddangosfa gyda'r gymuned leol. Mae Tîm Defnyddwyr wedi bod yn cyfarfod i geisio adnabod cyfleoedd eraill ond nid oes datrusiad hyd yma er parheir i gael y drafodaeth. | Byddai arbediad i gyllideb yr Uned yn arwain at lai o weithgareddau'n cael eu trefnu gan yr Uned Celfyddydau Cymunedol allai felly effeithio ar bobl Gwynedd gan na fydd cymaint o weithgareddau celfyddydau cymunedol e.e. Criw Celf / Caru Cerdd / Chwarae creadigol Uned Plant Ysbyty Gwynedd /Celf mewn Iechyd/Arteffact / prosiectau gyda Derwen, Hergest, Cofis Bach, Cymdeithas Alzheimer, Tai Gogledd Cymru ayb yn cael eu cynnal a byddai gallu'r Cyngor i ddenu arian cyfatebol allanol yn llai.<br><br>Ty Meirion . Mae'r penderfyniad i gau eisoes wedi ei gymryd gan Uned Eiddo'r Cyngor ond mi fydd yn arwain at fwlch yn Nolgellau a fydd yn anodd i'w lenwi o ran darpariaeth treftadaeth, twristiaeth a'r economi. Trafodaethau'n parhau efo'r gymuned leol i ddatblygu arddangosfa dreftadaeth ehangach gan y gymuned. | 28,000 | 1 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| EaCh10a | System Gyfrifiadurol Rhanbarthol i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd | Symud i system gyfrifiadurol rhanbarthol newydd ar y cyd gyda CYMAL ac awdurdodau'r gogledd | Darparu system am gost llai mewn cydweithrediad | 20,000 | 0 |
| EaCh10 | Mabwysiadau Cyfeiriad Strategol a Model Darparu | a) Cyflwyno model darparu newydd i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd ar gyfer Gwynedd fydd yn canolbwyntio ar gyflwyno Strategaeth Llyfrgelloedd Gwynedd "Mwy na Llyfrau". Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio'r ddarpariaeth Llyfrgelloedd i Ddarpariaeth Iechyd a Lles; Darpariaeth Digidol; Darpariaeth Darllen a Darpariaeth Gwybodaeth.<br>b) Bydd y cynnig hwn yn gwireddu ac yn gweithredu ar argymhellion yr Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd a gwblhawyd yn 2012-2014, gan Banel Ymgynghorol o aelodau.<br>c) Bydd y Gwasanaeth yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn barn trigolion Gwynedd ar y Cyfeiriad Strategol newydd ac yn cynnig 2 opsiwn darparu newydd i wireddu'r strategaeth honno sef –<br><br>Opsiwn 1:-<br>- Datblygu Rhwydwaith o 9 Prif Lyfrgell (adeiladau ffisegol) yn unig.<br>- Bod holl amrediad o wasanaethau a chynlluniau y 'cynigion' yn cael eu darparu ym mhob un o'r prif lyfrgelloedd.<br>- Bod oriau agor y Prif lyfrgelloedd yn cael eu haddasu i gwrdd gydag anghenion defnyddwyr llyfrgell sy'n colli adeilad o'u cymuned.<br>- Buddsoddi mewn systemau RFID<br>- Buddsoddi mewn adnoddau a teclynnau benthyca e-ddarllen | Yn ddibynnol ar ganlyniadau ymgynghori cyhoeddus; Asesiad Effaith Cydraddoldeb. Effaith amlycaf yw na fydd mynediad pobl Gwynedd i wasanaeth llyfrgell yn wahanol | | |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| EaCh10 | Newydd i'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd | ddarllen<br>- Datblygu'r Prif Lyfrgelloedd fel 'hwb' i ddarparu gwasanaeth llyfrgell ymestyn allan sy'n cynnwys:-<br>Llyfrgell Deithiol i gymunedau sydd dros 6 milltir o brif lyfrgell<br>Gwasanaeth Cludo i'r Cartref i Unigolion a Grwpiau Bregus<br>Gwasanaeth Lori Ni – llyfrgell deithiol plant<br>Gwaith Ymestyn allan gan 'Llyfrgellwyr Bro' (mynd a'r gwasanaeth llyfrgell i'r gymuned – gweithgareddau darllen, digwyddiadau i hyrwyddo y cynigion llyfrgell).<br><br>Opsiwn 2:-<br>- Datblygu Rhwydwaith o 9 Prif Lyfrgell (adeiladau ffisegol) yn unig.<br>- Cynnal y gwasanaeth fel ac y mae yn bresennol yn y 9 prif lyfrgell (dim addasu'r oriau agor; dim cynnydd mewn digwyddiadau / gweithgareddau / hyfforddi fydd ar gael ohonynt).<br>- Datblygu'r Prif Lyfrgelloedd fel 'hwb' i ddarparu gwasanaeth llyfrgell ymestyn allan sy'n cynnwys:-<br>Llyfrgell Deithiol drwy'r sir gan gadw y ddarpariaeth presennol<br>Gwasanaeth Cludo i'r Cartref i Unigolion a Grwpiau Bregus<br>Gwasanaeth Lori Ni – llyfrgell deithiol plant<br>Dim gwaith ymestyn allan gan 'Llyfrgellwyr Bro'.<br>- Trafod trefniadau amgen mewn 8 cymuned arall megis symud i Lyfrgell Gymunedol (i'r dinesydd buasai hyn yn ymddangos fel bod hyd at 17 llyfrgell, fel sy'n bresennol, | mynediad pobl Gwynedd i wasanaeth llyfrgell yn wahanol na'r hyn ydyw ar hyn o bryd. | 169,000 | I'w gadarnhau |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| EaCh11a | Diddymu Strwythur Gweithwyr Ieuenctid mewn Ysgolion | Diddymu 1.75 t/f swydd gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion. | Rydym wedi trafod dileu'r rhwydwaith gyda'r Adran Addysg a gyda phobl ysgol berthnasol. Roedd y Gweithwyr ieuenctid mewn ysgolion yn cefnogi pobl ifanc oedd mewn perygl o ddieithrio o addysg. Mae'r Gwasanaeth yn parhau i gefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl o ddadrithio drwy Rwydwaith o Weithwyr Ieuenctid a Chymuned. Ni fydd newid i'r hyn y gellir ei gynnig i'r bobl ifanc – y prif newid yw sut y mae'r ysgolion yn cael mynediad / cyfeirio i'n gweithwyr a bod arferion gwaith ein swyddogion yn fwy hyblygu i gefnogi pobl ifanc mewn dalgylch ehangach yn hytrach nag ynghlwm i ysgolion unigol. | 40,000 | 1.75 |
| EaCh11b | Trosglwyddo Rheolaeth adeiladau gwasanaeth Ieuenctid yn Cefnfaes a Penygroes | Trosglwyddo rheolaeth adeilad Cefnfaes unai i'r gymuned neu ar y farchnad agored / trosglwyddo rheolaeth adeilad Penygroes i'r ysgol neu i'r gymuned. | Bydd y gwasanaeth Ieuenctid yn parhau i fod ar gael yn y 2 gymuned a enwir ond nid y Cyngor o reidrwydd fydd perchennog y lleoliad y darperir y gwasanaeth ohono. | 30,000 | I'w gadarnhau |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| EaCh11c | Sefydlu dull darparu newydd i'r Gwasanaeth Ieuenctid | a) Symud oddi wrth y dull darparu presennol sy'n seiliedig ar gynnal 42 o glybiau ieuenctid ar draws y sir; gwasanaeth ymestyn allan sy'n seiliedig ar fws ieuenctid yn ymweld a rhai cymunedau; a rhwydwaith o 4 Gweithiwr Ieuenctid a Chymuned yn gwenud gwaith wedi ei dargedu at grwpiau penodol o bobl ifanc.<br>b) Byddwn yn ymgynghori ar Fodel Darparu newydd sy'n canolbwyntio'r ddarpariaeth ar Iechyd a Lles Pobl Ifanc, Sgiliau Bywyd a Gwaith Pobl Ifanc a Chyfranogiad Pobl Ifanc mewn cymdeithas<br>c) Bydd strwythur darparu yn seiliedig ar 4 dalgylch fydd yn cynnwys 4 Uwch-weithiwr, 4 Gweithiwr Ieuenctid a Chymuned (Gwaith wedi ei dargedu i grwpiau penodol o bobl ifanc), 7 Canolfan Ieuenctid (sesiynau dydd a nos gydol y flwyddyn), hyd at 13 Clwb Ieuenctid ( gyda'r nos yn unig); Gwasanath Ymestyn Allan (Bws a Gweithwyr Peripatetig); Gwasanaeth wedi ei gomisiynu (Urdd a Ffermwyr Ifanc i redeg darpariaeth mewn ardaloedd penodol).<br>d) Bydd y Gwasanaeth yn parhau i gynnal Rhaglen Weithagreddau; Fframwaith Achrediadau a Chymwysterau; Cynllun Gwirofddoli Pobl Ifanc; Hyfforddi Gweithlu Ieuenctid ( gwirfoddol a cyflogedig).<br>e) Bydd y Gwaith wedi ei dargedu yn darparu Rol Borceriaid i bobl ifanc oed ysgol sydd mewn perygl o ddad- | Bydd ymgynghoriad Cyhoeddus ac Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar y cynnig hwn. Byddwn angen casglu barn pobl ifanc, staff a rhan-ddeiliaid os ydym am newid y model darparu. | 70,000 | I'w gadarnhau |
| HAM1 | Adolygu a rhesymoli strwythurau rheoli newydd Canolfannau Hamdden | Adolygu'r sefyllfa bresennol o gael Rheolwr Canolfan Hamdden ymhob safle, a chreu swyddi Rheolwr Ardal, gyda chyfrifoldeb dros nifer o gyfleusterau Hamdden o fewn dalgylch diffiniedig. | Dim effaith i ddefnyddwyr Canolfannau Hamdden - gwasanaeth yn union yr un fath. | 135,897 | 6 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| HAM2 | Cynyddu lefelau ffioedd | Cynyddu lefel cyffredinol ffioedd hamdden 1% dros lefel chwyddiant am y dair blynedd nesaf | Yn gyffredinol, mae prisiau Gwynedd yn gystadleuol iawn i gymharu â chynghorau/busnesau lleol. Fodd bynnag, byddai angen sicrhau nad yw'r cynnig yn arwain at greu anghydraddoldebau iechyd mewn rhai ardaloedd o Wynedd. Gall y cynnig gynnwys gwaith ar sefydlu ffioedd gwahaniaethol ar sail ardal neu ddalgylch er mwyn ceisio lleddfu unrhyw effaith. | 147,000 | 0 |
| HAM3 | Adolygu a rhesymoli strwythurau canolog Gwasanaeth Cymunedau Iach | Adolygu strwythurau canolog Gwasanaeth Cymunedau Iach gan edrych i gyfuno dyletswyddau a chyfrifoldebau ymysg rheolwyr a staff | Dim effaith | 68,887 | 2 |
| HAM4 | Rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithiol | Lleihau lefel sybsidi presennol y Cyngor ar gyfer y ddarpariaeth o ganolfannau hamdden. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen cyfres o brosiectau trawsnewidiol ar draws Gwynedd sydd gyda ffocws penodol fesul dalgylch / canolfan hamdden. Mae hynny'n golygu gall y cynnig presennol fod yn lleihau yn sylweddol neu yn cael ei ddarparu'n wahanol a hynny'n gwbl ddibynnol ar y cyfleon sydd ar gael. | Bydd y newidiadau yn cael effaith sylweddol ar y cynnig presennol o gyfleusterau hamdden yn y Sir. Fodd bynnag, y nod ydi peidio lleihau'r cynnig oni bai bod achos clir i wneud hynny. Ble gellid lleihau'r cynnig, y nod hefyd yw sicrhau darpariaeth amgen heb amddifadu trigolion Gwynedd o'r gallu i gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol. | 639,758 | Hyd at 10 |
| HAM5 | Cynnal Tiroedd | Lleihau gwariant ar gynnal tiroedd drwy newid cytundeb | Dim effaith | 20,000 | 0 |
| HAM6 | Neuadd Chwaraeon Arfon, Bangor | Dod a chytundeb presennol ar gyfer defnydd o'r ganolfan gan drosglwyddo'r cyfleuster yn llawn i Coleg Menai neu yn rhannol i'r Brifysgol. | All arwain at leihad mewn defnydd gan drigolion lleol ond rhagwelir y byddai Coleg Menai/Brifysgol yn awyddus i'r defnydd presennol barhau. | 25,730 | 1 |
| HAM7 | Trac Treborth | Dod a chytundeb presennol ar gyfer defnydd tir i ben gan drosglwyddo'r asedau i'r Brifysgol. Byddai hynny yn cynnwys y trac athletau a'r offer sydd ar y safle | All arwain at leihad mewn defnydd gan drigolion lleol ond rhagwelir y byddai'r Brifysgol yn awyddus i'r defnydd presennol barhau. | 15,880 | 1 |
| **CYFANSWM** | | | | **1,715,652** | **26.75** |

**ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| PB1 | Cynllun Corfforaethol Caffael | Targed i’w gadarnhau. A dull o gyflawni i’w gadarnhau. | Ansicr ond ni rhagwelir y gaiff effaith ar bobl Gwynedd. | 106,000 | 0 |
| PB2 | Cynllun Corfforaethol Electronic Document Record Management System (EDRMS) | Dileu un swydd weinyddol. | Dim effaith ar bobl Gwynedd oherwydd rhesymoli trefniadau gweinyddol. | 25,000 | 1 |
| PB3 | Codi Ffî am Finiau Baw Cwn | Cael Cynghorau Cymuned a Thref i gyfrannu tuag at y ddarpariaeth. £100 o ffi pob bin baw cwn presennol, £250 pob bin ychwanegol.<br><br>Nid oes modd trosgwlyddo cyfrifoldeb yn gyfan gwbl i'r cynghorau cymuned/tref oherwydd mae'r Cyngor sydd a chyfrifoldeb am cynnal a glanhau y biniau. | Os na fyddai’r Cynghorau Cymuned a Thref yn dewis talu am y ddarpariaeth yna ni fydd y biniau ar gyfer baw cẃn sydd ar gael yn bresennol i drigolion yn cael eu darparu. | 20,000 | 0 |
| PB4 | Codi Ffi am Finiau Halen | Codi ffi am y gwasanaeth ar Gynghorau Cymuned a Thref, ffi o £156 pob bin (llenwi unwaith yn yr haf).<br><br>Mae'r cynnig yma yn gadarn, oherwydd y gofyn gan Cynghorau Cymuned i ymestyn y ddarpariaeth. | Cyfleon i gymunedau cymryd perchnogaeth o’r ddarpariaeth ac ymestyn y ddarpariaeth pe dymunir. | 100,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| PB5 | Canolfannau Ailgylchu | Adolygu'r ddarpariaeth bresennol drwy'r 9 Canolfan yn y Sir, angen ystyried dyddiau ac oriau agor, bydd cyfyngu pellach ar gamddefnydd gan fasnachwyr ac ystyried trwyddedu defnydd gan gynnwys codi ffi ar fasnachwyr pe bydd posib newid i amodau trwydded y safle, lleihau costau ymdrin a choed a rwbel yn unol a'r Strategaeth Wastraff. | Bydd effaith ar fasnachwyr sy'n bresennol cam-ddefnyddio'r canolfannau ailgylchu; tebygolrwydd bydd y ganolfannau ddim yn agored drwy'r wythnos fel yn bresennol. | 150,000 | 2 |
| PB6 | Torri Gwair Gwledig | Peidio gwneud yr ail doriad ymhobman. | Bydd yn rhaid sicrhau diogelwch defnyddwyr y ffyrdd e.e. ar gyffordd a chynnal bioamrywiaeth yn yr ymylon gwyrdd.  Posib bydd adwaith i edrychiad ymylon ein ffyrdd. | 100,000 | 0 |
| PB7 | Codi Ffî Mynwentydd ac Amlosgfa | Cynnydd mewn ffioedd claddu/amlosgi sy'n uwch na chwyddiant, ond yn rhesymol o'i gymharu a ffioedd siroedd eraill. | Cost uwch i gladdu/amlosgi. | 45,000 | 0 |
| PB8 | Gorffen Comisiynu Profion Cerrig Beddi | Arolygwyr Bwrdeistrefol i gynnal y profion ar y cerrig beddi, yn hytrach na chomisiynu Ymgynghoriaeth Gwynedd. | Dim effaith ar Bobl Gwynedd oherwydd bydd y gwasanaeth yn parhau. | 12,000 | 0 |
| PB9 | Arbedion Ynni Ffridd Rasus | Cynhyrchu trydan o'r nwyon yn y safle. | Dim effaith ar Bobl Gwynedd oherwydd nid yw'n amharu ar ddarparu gwasanaeth. | 20,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| PB10 | Rhesymoli Cylchdeithiau Glanhau Strydoedd | Mae gwaith ail-ddylunio cylchdeithiau glanhau parthau yn unol a'r Cod Ymarfer i'r diwydiant yn cael ei wneud i sefydlu arbediad. Targed wedi ei osod yn gorfforaethol o wariant cymharol siroedd eraill yn y maes. | Posib lleihad mewn safonau glendid rhai ardaloedd ar gyrion trefi. | 200,000 | 8 |
| PB11 | Cyfraniad Treth Tirlenwi yn dod i ben (Cronfa Tir a Mor) | Cyfraniad i gronfa amgylcheddol/cymunedol o dreth tirlenwi, nid oes cyfraniad i'r dreth bellach o ganlyniad i tirlenwi yng Ngwynedd dod i ben yn dilyn cau Cilgwyn, Llwyn Isaf a Ffridd Rasus (Ionawr 2014). Lefel cyfraniad blynyddol i'r gronfa yn £17k. | Posib effaith ar ffynhonnell grantiau cymunedol lleol i'r dyfodol. | 17,000 | 0 |
| PB13 | Rheoli'r Galw am Biniau, Bocsys, Bagiau Gwastraff | Rheoli'r gofyn am focsys glas yn dilyn cyflwyno Cartgylchu. Cyflwyno trefn fwy effeithiol o ail-gyflenwi bagiau leinio biniau bwyd drwy'r Sir. | Rheoli'r galw am y ddarpariaeth, trwy sefydlu dull gwahanol o ddosbarthu yn well a defnyddio cynhwysyddion gwell. | 50,000 | 1 |
| PB14 | Rhesymoli Cylchdeithiau | Newidiadau cylchdeithiau casglu gwastraff gweddilliol i amlder casglu 3 wythnos yn unol a'r Achos Busnes | Casglu gwastraff gweddilliol llai aml ond oherwydd bydd gwasanaeth casglu ailgylchu a bwyd wythnosol bydd disgwyl cynnydd mewn ailgylchu. | 150,000 | 2 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| PB15 | Adolygu Gwasanaeth Gwastraff Gardd | Newidiadau i'r ddarpariaeth casglu ac ymdrin a gwastraff gardd domestig a masnachol yn unol a'r Strategaeth Wastraff. Mae sawl opsiwn dan sylw:<br><br>a) Codi ffi o £22 y flwyddyn i'r rheini sydd yn defnyddio'r gwasanaeth (yr opsiwn sy'n cynnig yr arbediad mwyaf a sail y ffigyrau isod)<br>b) Peidio Casglu yn ystod misoedd y gaeaf<br>c) Gofyn i drigolion danysgrifio i'r gwasanaeth os ydynt eisiau'r gwasanaeth. | Angen ystyried sefyllfa rhai sydd ddim a gardd / ddim angen neu'n derbyn y gwasanaeth. | 750,000 | 6 |
| PB16 | Rhesymoli Graeanu | Rhesymoli a lleihau hyd y ffyrdd Ail Flaenoriaeth sydd yn cael eu graeanu. | Bydd llai o lonydd yn derbyn sylw o ran graeanu (nid blaenoriaeth cyntaf). | 70,000 | 0 |
| PB17 | Diddymu'r Ddesg Gwastraff | Trosglwyddo'r galwadau / ymholiadau i Galw Gwynedd.<br><br>Cefndir:<br>2 swyddog ar y Ddesg Gwastraff. 1 swyddog i'w drosglwyddo i Galw Gwynedd. 1 swydd i gael ei diddymu (£25k arbediad). | Dim effaith ar Bobl Gwynedd oherwydd bydd yr un gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r cyhoedd gan Galw Gwynedd. | 21,000 | 1 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| PB18 | Diddymu swydd Arolygwr Bwrdeistrefol gwag | Diddymu swydd Arolygwr Bwrdeistrefol gwag. | Efallai fydd ychydig o effaith gan fydd un swyddog yn llai i ymateb i ofynion trigolion, ond fydd yr un gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r cyhoedd. | 25,000 | 1 (G) |
| PB19 | Rhesymoli Banciau Ailgylchu | Lleihau'r ddarpariaeth a chytundebau gwagio gyda darparwyr, lleihau ar gamddefnydd, gwaredu slei bach a phroblemau glanhau strydoedd presennol. | Cyfeirio triogolion i ddefnyddio Canolfannau Ailgylchu y Sir sydd dan well rheolaeth. | 40,000 | 0 |
| PB20 | Parhau gyda'r Cynllun Pylu Goleuadau Stryd | Mae'r Cynllun Pylu wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor ers 2011, ac yn rhan o'r Cynllun Rheoli Carbon. Y cynnig yw ymestyn y cynllun dros 3 blynedd ychwanegol gan newid mwy o lampau i rhai sydd yn pylu er mwyn uchafu'r lefel o arbedion sydd yn bosib a lleihau allyriadau carbon a chostau ynni'r Cyngor. | Dim effaith oherwydd nid yw'n cael effaith ar ddarparu unrhyw wasanaeth. | 60,000 | 0 |
| PB21 | Newid Trefn Ar-ddyletswydd Goleuo | Diddymu'r drefn o gael Trydanwr goleuo ar-ddyletswydd. Galwadau i'w cymryd gan y Peirianwyr Ar-ddyletswydd. | Dim goblygiadau ar bobl Gwynedd ac ni rhagwelir bod y gwasanaeth yn gwaethygu o ganlyniad i'r cynllun yma. | 13,000 | 0 |
| PB22 | Ailstrwythuro Uned Goleuo | Adolygu strwythur y gwasanaeth o'r ochr cleient a chontractwr. | Dim effaith ar Bobl Gwynedd. | 65,000 | 3 |
| PB23 | Goleuo Twnel Caernarfon yn Fwy Effeithlon | Goleuadau newydd fwy effeithiol i arbed ynni. | Dim effaith ar bobl Gwynedd gan nad yw'n amharu ar darpariaeth unrhyw wasanaeth. | 15,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| PB24 | Trefn Gwahanol o Newid Lampau | Diddymu trefniant 'bulk change' sef newid lampau goleuadau stryd cyn iddynt ddod i diwedd ei hoes, trwy newid i drefn ymateb i ddiffygion fel maent yn codi. | Posibilrwydd bydd rhai lampau stryd yn cymryd mwy o amser i adnewyddu gyda diddymiant y drefn hwn ac y posiblrwydd o'r cyflwr y stoc lampau yn gwaethygu. | 97,000 | 1 |
| PB25 | Ar-ddyletswydd Priffyrdd | Asiantaeth Cefnffyrdd yn cyfrannu tuag at drefniant ar ddyletswydd priffyrdd. | Dim effaith oherwydd ni fydd yn newid darpariaeth y gwasanaeth. | 15,000 | 0 |
| PB26 | Newid Trefniadau Talu am Wasanaeth Ar-Alwad Gaeaf | Asiantaeth Cefnffyrdd yn cyfrannu i'r drefn o gael gangiau priffyrdd ar alwad tu allan i oriau gwaith arferol. | Dim effaith oherwydd bydd dim newid i'r gwasanaeth. | 16,000 | 0 |
| PB27 | Dileu ac addasu Pennawd Cyllideb Gwasanaeth Peirianneg | Dileu ac addasu pennawd cyllideb. | Dim effaith oherwydd ni fydd yn newid darpariaeth y gwasanaeth. | 10,000 | 0 |
| PB28 | Lleihau Amlder Torri a Threfn Casglu Gwair Trefol | Lleihau ymhellach amlder torri (safon uchel) a threfn casglu toriadau. | Posib effaith gweledol o ran edrychiad rhai llecynnau o fewn ein prif drefi. | 50,000 | 3 |
| PB29 | Lleihau Defnydd o Ymgynghorwyr Allanol | Llai o ddefnydd o Ymgynghorwyr arbenigol ar gyfer y ddarpariaeth tirlenwi o ganlyniad i dirlenwi yn dod i ben yng Ngwynedd. Mae dal angen defnydd bach o Ymgynghorwyr arbenigol yn ol yr angen, pan mae'r celloedd yn y safleoedd yn cael ei capio (oherwydd bod tirlenwi yn dod i ben). | Dim effaith ar bobl Gwynedd oherwydd nid yw'n amharu ar ddarpariaeth unrhyw wasanaeth. | 20,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| PB30 | Rheoli Teithiau Gwaith Staff | Cyfyngu ar ddefnydd staff o gerbydau eu hunain i gyflawni gwaith yr Adran. Yn unol a'r Polisi Teithio Corfforaethol. | Dim effaith ar bobl Gwynedd oherwydd nid yw'n amharu ar ddarpariaeth unrhyw wasanaeth. | 10,000 | 0 |
| PB31 | Arbedion Fflyd yn Unol a'r Adolygiad Trafnidiaeth | Adolygu trefniadau i gyd-fynd ac adolygiad trafnidiaeth gan y cwmni Edge. Bydd hyn yn cynnwys newidiadau i hurio cerbydau, cysoni ar gwneuthuriad a modelau cerbydau y Cyngor a defnydd o is-gontractwyr ac ail-strwythuro.<br><br>Manylion y strwythur i ddilyn. | Dim effaith ar bobl Gwynedd oherwydd nid yw'n amharu ar ddarpariaeth unrhyw wasanaeth. | 250,000 | 5 |
| PB32 | Ailstrwythuro Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Ailstrwythuro parhaol a sefydlu strwythurau dan y drefn haenau rheolaethol 2015-2018.<br><br>Mae'r cynllun yma yn darged corfforaethol sydd wedi ei roi ar yr adran o dan y categori 'Haenau Rheolaethol' sef £410k. Rhagwelir y bydd swyddi rheolaethol a rheng flaen yn cael eu heffeithio o dan y cynllun yma, trwy ail-strwythuro parhaol 2015-18. Ychydig dros 4 swydd y flwyddyn am 4 blynedd. | Bydd dileu gymaint a hyn o swyddi yn effeithio ar allu'r Adran i ymateb i ofynion trigolion. | 440,000 | 18 |
| **CYFANSWM** | | | | **2,962,000** | **52** |

**ADRAN RHEOLEIDDIO**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh1 | Ail Strwythuro Gwasanaeth (Pob Uned) | Rhesymoli unedau a gweithredu canfyddiadau asesiadau adolygu/trawsnewid gwasanaethau a gwneud y gorau o TG | Bydd y newid yn golgyu ail flaenoriaethu gwaith a lleihad mewn capasiti. Gall hyn gael eggaith ar allu y Gwasanaeth i ymateb i rai ymholiadau boed hynny o ran pwnc neu o ran bod yn amserol | 200,000 | 6.0 |
| Rh2 | Cyfrif Llif / Cyflymdra (Uned Traffig) | Mae oddeutu £70,000 y flwyddyn yn cael ei wario ar gael yr Ymgynghoriaeth i gasglu gwybodaeth a lleoli mesuryddion dros dro. Gyda datblygiadau offer a TG sydd yn lleihau gofynion arbenigedd etc mae yn nod i wneud hyn oddi fewn y Gwasanaeth gan ddefnyddio staff maes wedi yr ail strwythuro uchod. | Dim effaith. | 30,000 | 0.0 |
| Rh3 | Arbed Arian Cynnal Pontydd (1) (Refeniw) | Refeniw blynyddol oddeutu £888,000 i gynnal holl strwythurau y Sir. Edrych i wneud arbediad o 7% sef £62,000 drwy leihau ar gynnal ymatebol drwy ' risk based assessment' a gwell rheolaeth o asedau. Bwriad wedi ei wyntyllu fel dull gwell o weithio yn y broses Adolygiad Strategol Priffyrdd. | Dim yn uniongyrchol ond fe ddylai y dull newydd o weithio alluogi'r Cyngor i wneud defnydd gwell o adnoddau prin a rhoi arweiniad a sicrwydd ynglŷn â pha bontydd fydd yn cael sylw. | 62,000 | 0.0 |
| Rh4 | Arbed Arian Cynnal Pontydd (2) (Refeniw) | Newid i 'Risk Based Assessments' a lleihau costau blynyddol i archwilio pontydd / waliau o 15% Costau presennol yn £238,000 y flwyddyn. Angen buddsoddi yn 2015/16 i roi y sylfaen wybodaeth yn ei le. Hyn eisoes ar y gweill. | Dim yn uniongyrchol ond fe ddylai y dull newydd o weithio alluogi'r Cyngor i wneud defnydd gwell o adnoddau prin a rhoi arweiniad a sicrwydd ynglŷn â pha bontydd fydd yn cael sylw. | 37,000 | 0.0 |
| Rh6 | Cynnydd Incwm Gwaith Strydoedd (Uned Gwaith Strydoedd) | Defnydd effeithiol o TG ynghyd â chryfhau a gwella ffrydiau incwm. Buddsoddiad eisoes wedi ei wneud yn y system swyddfa gefn i hwyluso hyn. | Dim effaith. | 40,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh8 | Gostyngiad mewn costau rheoli – Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd | Mae costau rheoli yn cyfrif am 18.3% o’r gwariant ar gyflogau yn y Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd ar hyn o bryd. Mae nifer y rheolwyr wedi parhau’n gyson dros y tair blynedd ddiwethaf, er gwaethaf y lleihad yn niferoedd y staff rheng flaen a staff cefnogi gweithrediad. Mae saith rheolwr ar hyn o bryd: un Uwch Reolwr, tri Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd, dau Reolwr Safonau Masnach ac un Rheolwr Cefnogi Gweithrediad. Cynigir lleihau’r nifer o reolwyr drwy ddileu dwy swydd; un Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd ac un Rheolwr Safonau Masnach. Bydd hyn yn arwain at arbedion o £100k. | Bydd lleihad mewn rheolwyr yn amlwg yn arwain at golli arbenigedd. Fodd bynnag, drwy ddewis un rheolwr o gefndir Iechyd yr Amgylchedd ac un o gefndir Safonau Masnach, bydd parhad y gwasanaeth yn cael ei sicrhau. | 100,000 | 2.0 |
| Rh9 | Rhoi’r gorau i Swyddogaethau Anstatudol – Gwasanaethau Rheoli Pla | Mae gan y Cyngor ddyletswydd i ddifa pla yn ei ardal. Er nad oes dyletswydd i'r fath ddifa gael ei wneud gan ei staff ei hun, ac y byddai'r gwasanaeth yn cael ei brynu i mewn pe byddai angen, byddai'n dibynnu ar argaeledd gwasanaethau masnachol a’u bod yn ddigonol i ymateb yn amserol.<br><br>Mae’r swyddogaeth Difa Pla yn darparu gwasanaethau difa i aelodau’r cyhoedd, i fusnesau, i Adrannau eraill y Cyngor ac i CCG. Nid yw’r incwm a geir o'r ffioedd a godir am y gwasanaethau hyn ond yn ddigon i dalu am 40% o’r costau. Nid oes dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu’r swyddogaeth hon ac os na pharheir â'r swyddogaeth, byddai modd gwneud arbedion o £67k yng nghyllideb Gwarchod y Cyhoedd. | Ar hyn o bryd, mae’r cyhoedd, Adrannau eraill y Cyngor a CCG yn derbyn gwasanaethau difa pla am gost isel o gymharu â’r dewisiadau masnachol eraill sydd ar gael. Byddai hyn yn dod i ben pe byddai’r gwasanaeth yn cael ei dynnu’n ôl. | 67,000 | 2.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh10 | Cynnydd yn y ffioedd Marchnadoedd a Ffeiriau er mwyn adennill costau | Mae'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd yn rheoli'r marchnadoedd manwerthu wythnosol a gynhelir mewn trefi ledled Gwynedd, ynghyd â nifer o ffeiriau blynyddol. Codir ffioedd ar y masnachwyr sy'n mynychu'r marchnadoedd hyn: mae'r incwm o ffioedd yn talu am 84% o'r costau. Nid oes dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i ddarparu'r swyddogaeth hon. Os na pharheir â'r swyddogaeth, gellid gwneud arbediad o £6k yng nghyllideb Gwarchod y Cyhoedd.<br><br>Yn sgil yr arbediad bychan a geid drwy beidio â pharhau â'r swyddogaeth Marchnadoedd a Ffeiriau, yn enwedig pan fo hyn yn cael ei gymharu â'r manteision cyffredinol y daw marchnadoedd a ffeiriau i Wynedd, argymhellir bod yr opsiwn hon yn cael ei dilyn ond bod ffioedd yn cael eu codi er mwyn adennill costau'n llawn. Byddai hyn yn gofyn am gynnydd o 19% yn lefel y ffioedd a godir ar hyn o bryd. | Mae Marchnadoedd a Ffeiriau'n cael eu sybsideiddio gan y Cyngor ar hyn o bryd. Nid yw cynyddu ffioedd fyth yn beth poblogaidd, ond nid oes modd cyfiawnhau'r sefyllfa bresennol ble mae busnesau'n cael eu sybsideiddio ar draul gwasanaethau statudol eraill. | 6,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh11 | Lleihad o 10% yng nghyllidebau Uned Gwarchod y Cyhoedd sy'n ymdrin â swyddogaethau ble mae gan y Cyngor ddisgresiwn yn lefel y gwasanaeth a ellir ei ddarparu. | **Cam 1**: Mae'n ddyletswydd statudol ar y Cyngor i gyflawni rhai swyddogaethau 'Gwarchod y Cyhoedd' penodol. Ar gyfer rhai o'r dyletswyddau hyn, mae isafswm lefel y gwasanaeth yn cael ei bennu gan Godau Ymarfer statudol ac ni ellir gwneud arbedion yn y swyddogaethau hyn. I eraill, rhaid i'r Cyngor gyflwyno'r swyddogaeth ond mae ganddo ddisgresiwn ynghylch lefel y gwasanaeth a ddarperir. Gellid gwneud arbedion drwy flaenoriaethu ymhellach lefel y gwasanaeth a ddarperir ar gyfer y swyddogaethau isod:<br>• Trwyddedu Carafanau<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Iechyd Anifeiliaid<br>• Masnachu Teg<br>• Diogelwch Cynnyrch<br>• Pwysau a Mesurau<br>Gellir gostwng lefel y gwasanaeth drwy beidio â gwneud gwaith rhagweithiol a blaenoriaethu gwaith ymatebol er mwyn canolbwyntio adnoddau ar agweddau sydd wedi'u pennu'n barod a bydd y dewis terfynol ynghylch y toriadau'n cael ei wneud gan yr Aelod Cabinet ac/neu'r aelodau. Byddai gostyngiad o 10% yng nghyllidebau gwasanaeth y swyddogaethau hyn o lefel gwariant 2013/14 yn arbed £69k, sydd gyfystyr â 3.8% o gyllideb Gwarchod y Cyhoedd. | Mae'r swyddogaethau hyn wedi'u gorymestyn yn barod neu'n darparu isafswm gwasanaeth. Byddai lleihau eu cyllidebau yn gwanhau eu gallu i warchod trigolion Gwynedd rhag niwed a busnesau cyfreithlon rhag cystadleuaeth anheg. | 69,000 | 1.8 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh12 | Lleihad ar Rh11 o 10% pellach (h.y. cyfanswm o 20%), yng nghyllidebau'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sy'n ymdrin â swyddogaethau ble mae gan y Cyngor ddisgresiwn yn lefel y gwasanaeth a ellir ei ddarparu. | **Cam 2:** Gellid gwneud arbedion pellach gyda'r swyddogaethau isod:<br><br>• Trwyddedu Carafanau<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Iechyd Anifeiliaid<br>• Masnachu Teg<br>• Diogelwch Cynnyrch<br>• Pwysau a Mesurau<br><br>Byddai gostyngiad pellach o 10% yng nghyllidebau gwasanaeth y swyddogaethau hyn o lefel gwariant 2013/14 yn arbed £69k pellach sy'n cyfateb i gyfanswm arbediad o £138k sydd gyfystyr â 7.6% o gyllideb Gwarchod y Cyhoedd. | Fel y nodwyd, y cynnig yw torri 10% o'r gwariant; mae'r swyddogaethau hyn wedi'u gorymestyn yn barod neu dim ond isafswm gwasanaeth a ddarperir. Byddai lleihau'r cyllidebau fwy na 10% yn gwanhau eu gallu i warchod trigolion Gwynedd rhag niwed a busnesau cyfreithlon rhag cystadleuaeth anheg. | 69,000 | 1.8 |
| Rh13 | Rhesymoli'r Uned Bioamrywiaeth | Dileu swydd Swyddog Bioamrywiaeth.<br>Rhesymoli trefniadau gwaith. | Y cyngor yn methu cwrdd a gofynion statudol wrth ddarparu gwasanaethau megis cyngor arbenigol ar faterion Cynllunio ac ati fydd yn creu risgiau i'r Cyngor ac i ddarpar ddatblygwyr yng Ngwynedd, gydag effeithiau negyddol ar bobl Gwynedd yn sgil hyn.<br>Effaith negyddol ar bobl Gwynedd o ran eu cyfleoedd i gael ymwybyddiaeth o phrofiadau o'r bioamrywiaeth gwerthfawr yng Ngwynedd. | 30,070 | 1.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh14 | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd | Rhesymoli'r strwythur staff drwy:<br>• Ddileu Swyddi Cymhorthydd Cynllunio a Swyddog Systemau.<br>• Yn sgil yr uchod, rhesymoli gwaith yr Uned | Prif waith yr Uned yma yw paratoi Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer Awdurdodau Cynllunio Gwynedd ac Ynys Mon sydd yn ofyniad statudol ac yn un o flaenoriaethau corfforaethol y ddau Gyngor. Amserir y syniad ar y sail y bydd y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi ei fabwysiadu cyn y bydd y syniad yn cael ei weithredu. Os na fydd y Cynllun wedi ei fabwysiadu bydd effaith ar gapasiti'r Uned i gyflawni'r gwaith – fydd yn sgil hyn yn cael effaith ar bobl Gwynedd gan na fydd Cynllun Datblygu diweddar yn ei le fel fframwaith gynllunio defnydd ti hwyluso dayblygiadau priodol i gwrdd ag anghenion trigolion Gwynedd. Bydd hefyd llai o gapasti i ar gyfer gwaith megis Canllawiau Cynllunio Atodol, Adroddiadau Monitro ac ati. | 23,213 | 2.0 |
| Rh15 | Codi ffi am gyngor Cynllunio. | Creu incwm drwy godi ffi priodol am roi cyngor cynllunio. Mae'r hawl i godi ffioedd ar gyfer cynnig cyngor cyn cyflwyno cais a ffioedd eraill dewisol wedi ei awdurodi gan y Cyngor ers 2011. Nid yw'r hawl yma wedi ei weithredu oherwydd yr holl newidiadau eraill megis trawsnewid ac ail-strwythuro'r Gwasanaeth Cynllunio oedd yn mynd ymlaen ar y pryd. Mae'r ffi sydd angen ei dalu yn seiliedig ar raddfa datblygiad – ac mae trefniadau tebyg eisoes yn weithredol mewn Awdurdodau eraill yng Nghymru. | Posib y bydd pobl Gwynedd yn dewis peidio gofyn am gyngor cyn cyflwyno cais (sydd yn wasanaeth sydd am ddim ar hyn o bryd) gydag ansawdd ceisiadau cynllunio'n dirywio a mwy o geisiadau'n cael eu gwrthod a neu'n cymryd mwy o amser i'w penderfynu. | 10,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh16 | Hysbysebu Ceisiadau Cynllunio | Cwtogi'r costau sydd yn gysylltiedig a'r angen statudol i hysbysebu rhai mathau o geisiadau cynllunio yn y wasg. Mae'r Adran yn cynnal darn o waith i edrych ar yr opsiynnau ar gyfer hyn fydd yn y byr dymor mae'n debyg angen trafodaethau gyda'r papurau newydd lleol gan na fydd yr anghenion statudol yn newid. Yn yr hir dymor a drwy'r Ddeddf Gynllunio Cymru (2016) – mae posibilrwydd y bydd yr anghenion statudol yn cael ei haddasu fel eu bod yn fwy addas i'r pwrpas gan ystyried hefyd fod gwybodaeth bob un cais cynllunio erbyn hyn ar y we. | Dim effaith. | 15,000 | 0.0 |
| Rh17 | Hysbysebu Gorchmynion Hawliau Tramwy | Cwtogi'r costau sydd yn gysylltiedig a'r angen statudol i hysbysebu gorchymynion hawliau tramwy yn y wasg. Mae'r Adran yn cynnal darn o waith i edrych ar yr opsiynnau ar gyfer hyn fydd yn y byr dymor mae'n debyg angen trafodaethau gyda'r papurau newydd lleol gan na fydd yr anghenion statudol yn debygol o newid. | Dim effaith. | 5,000 | 0.0 |
| Rh18 | Rhesymoli Gwasanaeth Coed Cymru | Rhesymoli Gwasanaeth Coed i gynnwys codi ffi a chreu incwm am gyngor/gwaith arbenigol ar faterion coed. | Dim effaith. | 10,000 | 0.0 |
| Rh21 | Cydweithio cefn gwlad a mynediad (Gwynedd a'r Parc) | Darparu gwasanaeth Cefn Gwlad a Mynediad ar y cyd i gynnwys materion Hawliau Tramwy, Gweithredu Gwledig ac AHNE. | Effaith negyddol byr dymor wrth i adnoddau gael eu defnyddio i reoli a gweithredu'r newid. Anodd rhagweld yr effaith hir dymor ar hyn o bryd. | 35,000 | 1.5 |
| Rh22 | Cyflwyno trefn "permits" ar gyfer pysgota cocos yn Traeth Lafan. | Creu incwm drwy gyflwyno trefn i hawlio taliad am hel cocos yn Nhraeth Lafan. Mae hyn yn sgil ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru ynglyn a rheolaeth fwy cadarn a chost effeithiol ar gyfer pysgota cocos. | Dim effaith. | 10,000 | 0.0 |
| Rh23 | Rhesymoli Pridiannau Tir 2014 | Cynyddu incwm y gwasanaeth drwy gynyddu pris y chwiliad o £96 i £100. Hefyd byddwn yn gwneud i ffwrdd â'r gwahaniaeth sydd yn bodoli rhwng y ffi am chwiliadau papur ag electroneg. | Posibilrwydd y bydd yna ddirywiad yn y gwasanaeth a ddarperir i brosesu chwiliadau. | 12,500 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh24 | Rhesymoli defnydd o'r ceir pwl a fflyd a lleihau costau teithio | Uchafu defnydd o'r ceir pwl a fflyd a rhesymoli'r niferoedd i gwrdd â'r angen.  Hyn yn cynnwys newid trefn gweithio swyddogion i arwain at ddod a'r trefniant o fynd a fan adref i ben, gwaredu ceir pwl a cherbydau fflyd. | Dim effaith. | 18,000 | 0.0 |
| Rh25 | Ail strwythuro Unedau Rheolaeth Datblygu, Gorfodaeth Cynllunio a Chefnogol Cynllunio | • Uno'r Uned Rheolaeth Datblygu a'r Uned Gorfodaeth i greu  Uned Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth<br>• Uno dyletswyddau swyddi Rheolwr Rheolaeth Datblygu a Rheolwr Gorfodaeth Cynllunio i greu swydd Rheolwr Rheolaeth Datblygu a Gorfodaeth<br>• Dileu swydd Uwch Swyddog Rheolaeth Datblygu<br>• Dileu swydd Cymhorthydd Cefnogol Cynllunio<br>• Rhesymoli trefniadau gwaith | Ymholiadau cynllunio, ceisiadau cynllunio ac achosion gorfodaeth yn cymryd mwy o amser gyda bobl Gwynedd yn disgwyl mwy o amser am atebion / penderfyniadau. Poib na fyddai'r gwasanaeth ddim yn cwrdd a gofynion statudol.<br>Posib felly o effaith negyddol ar bobl Gwynedd yn economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. | 96,300 | 4.0 |
| Rh26 | Rhesymoli gwaith y Tîm Hawliau Tramwy | Dileu swydd Arweinydd Tim Hawliau Tramwy<br>Dileu swydd Archwilydd Hawliau Tramwy<br>Torri £30,000 o gyllideb cynnal Hawliau Tramwy<br>Rhesymoli trefniadau gwaith sydd yn cynnwys gweithredu ar Rhaglen Waith yr Uned yn sgil yr ailstrwythuro a'r trawsnewid yn 2011/12 | • Gallai olygu diffyg cwrdd a gofynion statudol gyda hawliau tramwy gyda chynnydd posib mewn hawliadau yn erbyn y Cyngor.<br>• Effaith negyddol ar gapasiti'r Tim Hawliau Tramwy (Uned Cefn Gwlad a Mynediad) i ddarparu rheolaeth effeithiol o rwydwaith hawliau tramwy'r sir.<br>• Y sefyllfa o ran cyllid gan Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli / cynnal y Llwybr Arfordir Cenedlaethol i'r hir dymor yn ansicr ar hyn o bryd.<br>• Diffyg adnoddau ar gyfer rheoli safleoedd megis Gwarchodfeydd Natur a Lonydd Glas<br><br>Yn sgil yr uchod effaith negyddol ar fwynhad a defnydd y cyhoedd (yn drigolion Gwynedd ac ymwelwyr i'r ardal) o lwybrau cyhoeddus y sir.<br>Yn sgil yr uchod effaith negyddol ar yr economi dwristiaeth ac o ganlyniad i hyn ar bobl Gwynedd. | 94,300 | 2.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh27 | Lleihad pellach ar Rh11 a Rh12 o 10% (h.y. cyfanswm o 30%) yng nghyllidebau'r Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd sy'n ymdrin â swyddogaethau ble mae gan y Cyngor ddisgresiwn yn lefel y gwasanaeth a ellir ei ddarparu. | Cam3: Gellid gwneud arbedion pellachgyda'r swyddogaethau isod:<br><br>• Trwyddedu Carafanau<br>• Iechyd a Diogelwch<br>• Iechyd Anifeiliaid<br>• Masnachu Teg<br>• Diogelwch Cynnyrch<br>• Pwysau a Mesurau<br><br>Byddai gostyngiad pellach o 10% yng nghyllidebau gwasanaeth y swyddogaethau hyn o lefel gwariant 2013/14 yn arbed £69k pellach sy'n cyfateb i gyfanswm arbediad o £138k sydd gyfystyr â 7.6% o gyllideb Gwarchod y Cyhoedd. | Fel y nodwyd, y cynnig yw torri 10% o'r gwariant; mae'r swyddogaethau hyn wedi'u gorymestyn yn barod neu dim ond isafswm gwasanaeth a ddarperir. Byddai lleihau'r cyllidebau fwy na 10% yn gwanhau'n ddifrifol eu gallu i warchod trigolion Gwynedd rhag niwed a busnesau cyfreithlon rhag cystadleuaeth anheg. Byddai torri'r gwasanaethau hyn 20% yn annoeth ar ran y Cyngor. | 69,000 | 1.8 |
| Rh28 | Cynnydd mewn ffioedd er mwyn adennill costau – Trwyddedu Tacsis | Caniateir i awdurdodau lleol adennill y costau a ddaw o ganlyniad i agweddau penodol o drwyddedu tacsis a cherbydau hurio preifat, ac ati. Er mwyn adennill y costau hyn a ganiateir, byddai gofyn cynnyddu'r ffioedd cyfredol a godir am dacsis a cherbydau hurio preifat, ac ati, 19.78% (ac i nifer y cwsmeriaid barhau ar y lefelau presennol hefyd). Byddai hyn yn creu incwm ychwanegol o £21k. | Taxi licence fees were raised by 25% in 2013/14 with notice being given to thetrade that the Council would be moving towards full cost recovery in 2014/15. Despite this notice having been given, it is likely that there will be a strong adverse reaction to the proposal that fees be increased. If the new fees are introduced, it is also very likely that the increase will be passed on to customers. The process has started and the Licensing Committee will consdier the matter at their September meeting. | 21,000 | 0.0 |
| Rh29 | Tystysgrifau DEC | Caffael y gwaith yn well a rheoli'r nifer o dystysgrifau blynyddol fydd angen eu cwblhau. | Dim effaith. | 7,000 | 0.0 |
| Rh30 | Ail strwythuro Uned Datblygu | Erbyn y drydedd flwyddyn bydd cyfran helaeth o gynlluniau y Cynllun Rheoli Asedau wedi eu cyflawni. Bydd modd lleihau yr adnodd staff felly. | Dim effaith. | 39,000 | 1.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh31 | Ail Strwythuro Uned Stadau | Mae un aelod o'r tim eisoes wedi cychwyn ar drefniant gweithio hyblyg gyda dyddiad terfyn wedi ei gytuno ymlaen llaw. Ni fydd yr hanner sy'n weddill yn cael ei llenwi bryd hynny.<br><br>Bydd rhaid ail edrych ar weithgaredd yr Uned a chytuno ar flaenoriaethau. Ni fyddwn yn tori unrhyw wasanaeth a gynnigir ond byddwn yn edrych ar y camau gwastraffus a bydd rhaid derbyn na allwn ymateb mor gyflym i bob ymholiad/cais am waith. | Dim effaith. | 19,500 | 0.5 |
| Rh32 | Gwasanaeth Glanhau | Ail ddiffinio'r gofynion ac edrych ar ddefnydd amser mwy effeithlon. Adolygu dulliau gweithio hanesyddol. | Dim effaith. | 40,000 | I'w gadarnhau |
| Rh33 | Adolygiad Rhent Manddaliadau | Mae rhenti'r manddaliadau'n cael eu hadolygu pob tair blynedd ac er fod y targed incwm yn cael ei gynyddu'n unol a chwyddiant, bydd y cynnydd yn creu incwm uwchlaw'r targed. | Dim effaith. | 20,000 | 0.0 |
| Rh34 | Ail Strwythuro Uned Diogelwch a'r Uned Gwaith Rhaglenedig | Mae cysylltiad agos rhwng gwaith y ddwy uned hon, yn arbennig yr ochr comisiynnu gwaith gan YGC neu ymgynghrowyr allanol. Drwy ddefnyddio egwyddorion Ffordd Gwynedd mae posibilrwydd uno'r ddwy uned o dan un rheolwr a defnyddio arbenigedd aelodau o staff mewn gwahanol feysydd. | Dim effaith. | 15,000 | 1.0 |
| Rh35 | Trwyddedau meddalwedd | Wedi gallu ail negodi telerau trwyddedau blynyddol system K2 ar gyfer 15/16 ymlaen ac mae bwriad i ddyddiymu defnydd o system info 4 local gov | Dim effaith. | 5,000 | 0.0 |
| Rh36 | Lleihau arbenigedd mecanyddol a thrydanol | Colli un swydd yn y maes yma a defnyddio arbenigedd swyddogion eraill yn y Gwasanaeth i gyflawni'r gofynion - Ffordd Gwynedd | Dim effaith. | 36,000 | 1.0 |
| Rh37 | Lleihau nifer o faniau | Newid trefn weithio i arwain at ddileu yr angen am fan gan rai swyddogion a dod a'r trefniant o fynd a fan adref i ben | Dim effaith. | 7,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| Rh38 | Lleihau nifer Gofalwyr Pencadlys | Mae un swydd eisoes wedi ei diddymu drwy newid patrwm gwaith y ddau arall ac ail flaenoriatehu eu rhaglen waith wythnosol. | Dim effaith. | 20,000 | 1.0 |
| **CYFANSWM** | | | | **1,337,883** | **30.4** |

**ADRAN YMGYNGHORIAETH**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| YGC1 | Codi Cynhyrchiant Staff YGC | Mae bwriad i godi targed oriau denu ffioedd i staff YGC. Mae hyn yn golygu bydd y targed yn cynyddu o 1490 i 1505 eleni ac yna yn cynyddu i 1550 dros y pedair blynedd nesa (1520-2015/16, 1535- 2016/17, 1550-2017/18). Mae hyn cyfwerth â chynnydd mewn ffioedd o £76,799 ychwanegol pob blwyddyn (fel mae'r strwythur presennol). Mae hyn wrth reswm yn ddibynnol ar gynnydd mewn llif gwaith i gyfarch y 'capasiti' newydd o fewn y strwythur. | Dim effaith oherwydd ni fydd yn cael unrhyw effaith ar y gwasanaeth mae pobl Gwynedd yn ei dderbyn. | 228,000 | 0 |
| YGC2 | Ail Strwythuro Rheolaeth Adeiladu | Mae newidiadau mewn darpariaeth gwaith a hefyd ail ddiffinio anghenion y busnes wedi darganfod arbedion o £90K o fewn yr Uned. Bydd y newidiadau yn golygu newid ffocws tîm o fod yn weinyddol i fod yn fwy technegol er mwyn darparu gwasanaeth well.<br><br>Fe fydd hefyd ffî ar gyfer ceisiadau i newid enw dþ neu stryd ac ar gyfer rhybuddion dymchwel. | Bydd ffî ar gyfer rhai gwasanaethau lle nad oes ffî ar hyn o bryd. | 90,000 | 0.5 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| YGC3 | Ceisiadau Ymddeol yn Gynnar | Rydym wedi hysbysu fod yr Adran yn fodlon cysidro achosion o ymddeol yn gynnar ble mae budd i'r adran ar sail strategaeth a threfn y busnes. Mae Prif Bensaer a Chymhorthydd Technegol eisoes wedi manteisio ar y cynnig ble nad oed effaith andwyol ar y Gwasanaeth. | Dim effaith oherwydd mae'r math o wasanaeth oeddent yn ei gynnig wedi dirwyn i ben. | 98,121 | 2 |
| **CYFANSWM** | | | | **416,121** | **2.5** |

**ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED1 | Edrych i gynyddu cyfraniad y Bwrdd Iechyd drwy adolygu’r pecynnau Gofal personol a cyfnodau o oruchwyliaeth ym maes Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyredd | Ystyried a oes lle i gydariannu rhai o’r achosion gyda’r Bwrdd Iechyd ac yn cynnig gwaith pellach i ddeall modelau cydariannu sydd gan rhai o gynghorau eraill, megis Ynys Môn. | Dim effaith gan mai cydariannu'r pecynnau gofal gyda Iechyd yw'r bwriad | 100,000 | 0.0 |
| OED2 | Adolygu Gwasanaeth Siopa ym maes Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyredd gan ystyried a oes modd cwrdd ag anghenion mewn ffordd amgen. | Gwelwyd gwahaniaeth yn y gwariant a’r ymarfer ar draws Gwynedd gydag oddeutu 10% o ddefnyddwyr Arfon a Dwyfor yn derbyn cymorth gyda siopa fel rhan o’r cynllun gofal tra mae’r ffigwr yn 25% ym Meirionnydd. Gwaith yn parhau i ganfod pam fod y sefyllfa yma yn bodoli. Gwaith pellach i adnabod yr eithriadau ac ymchwil i fodelau /opsiynau eraill o ran cwrdd â’r angen , gan anelu at arbedion pellach ar y gwariant presennol wrth i ni drawsnewid ein gwasanaethau a rheoli galw. | Byddai effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a’u gofalwyr, wrth i’r disgwyliadau ohonynt addasu. Wrth barhau i gwrdd â gofynion statudol a diwallu anghenion gofal, byddai’n rhaid cydnabod y byddai her o ran rheoli’r newid i lawer iawn o unigolion, a chefnogi pobl trwy gyfnod o ansefydlogrwydd yn eu bywydau. | 48,000 | 1.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED3 | Adolygu sut rydym yn comisiynu Gwasanaeth Domestig i gefnogi Gofalwyr i gynorthwyo a chefnogi unigolion i barhau i fyw yn eu cartrefi gan ystyried a oes modd cwrdd ag anghenion mewn ffordd amgen. | Fel sydd yn cael ei nodi gyda'r siopa mae'r un patrwm yn wir gyda gwariant ar wasanaeth domestig i gefnogi Gofalwyr. Gwaith pellach yn canolbwyntio ar ddeall y gwahaniaeth ac angen edrych a oes ffordd amcan o ddarparu'r gwasanaeth yn hytrach na drwy ddefnyddio Gofalwyr Cartref . | Byddai effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, wrth i'r disgwyliadau ohonynt addasu. Wrth barhau i gwrdd â gofynion statudol a diwallu anghenion gofal, byddai'n rhaid cydnabod y byddai her o ran rheoli'r newid i lawer iawn o unigolion, a chefnogi pobl trwy gyfnod o ansefydlogrwydd yn eu bywydau. Ar yr un pryd, byddai rhaid helpu defnyddwyr gwasanaeth cyfredol i addasu wrth i'r modd y gofelir amdanynt newid.<br>Byddai effaith ar rai darparwyr wrth i lefel y gofal a brynir ganddynt leihau, ond mae'n debyg y byddai cyfleoedd hefyd, o ran dargyfeirio a thyfu i gwrdd â'r weledigaeth aeddfetach o ran cynnig gwasanaethau ataliol a chefnogol. | 25,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED4 | Adolygu'r Pecynnau Gofal 2 Ofalydd ym maes Pobl Hŷn, Anableddau Corfforol a Synhwyredd gan ystyried a oes modd cwrdd ag anghenion mewn ffordd amgen. | Adolygu yr angen am 2 ofalydd pan mae angen defnyddio offer [hoist] i drosglwyddo unigolyn er mwyn sicrhau diogelwch yr unigolyn a'r gofalydd.<br>Gwelwyd cynnydd yn y nifer o achosion dwys lle mae angen 2 Ofalydd oherwydd rhesymau Iechyd a Diogelwch wrth symud a thrin oedolion bregus. Wedi ystyried y gwaith a'r arbedion mae Cyngor Gwlad yr Haf a Medway.<br><br>Cyfarfod cychwynnol rhwng Uned Iechyd a Diogelwch Corfforaethol, Gwasanaeth Darparu a Gwasanaeth Oedolion a chytunwyd mai ymarfer presennol ydi:<br>• Darparwyr a Therapyddion Galwedigaethol yn nodi angen am 2 Ofalydd ar bob achlysur lle cyflwynir hoist.<br>• Darparwyr yn gyffredinol yn bryderus o ystyried aelod o deulu'n gweithredu fel yr 2il Ofalydd.<br><br>Camau nesaf<br>• edrych ar 14 achos gyda Darparwyr Mewnol yn Nwyfor er mwyn gweld a ellir cyflawni'r dasg yn ddiogel gyda 1 gofalydd.<br>• Hyn yn sail i adrodd ar gostau ychwanegol os bydd angen comisiynu offer gwahanol ac i adnabod ac adrodd ar arbedion effeithlonrwydd.<br>• Cwblhau'r uchod ac adrodd ar y canlyniadau cychwynnol dechrau Tachwedd 2014. | Byddai effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, wrth i'r disgwyliadau ohonynt addasu. Wrth barhau i gwrdd â gofynion statudol a diwallu anghenion gofal, byddai'n rhaid cydnabod y byddai her o ran rheoli'r newid i lawer iawn o unigolion, a chefnogi pobl trwy gyfnod o ansefydlogrwydd yn eu bywydau. | 110,000 | 2.5 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED5 | Peidio cludo clientiaid i'r man lle rhoddir gwasanaeth, lle nad yw'n rheidrwydd arnom i wneud hynny | Yn absenoldeb polisi darparu cludiant mae angen llunio polisi er mwyn cyfyngu'r defnydd cludo presennol o ddarparu cludiant yn ddi-wahan i bawb ym maes Henoed a Gwasanaeth Anabledd Dysgu.<br><br>O fewn y cyd destun yma bydd yn rhaid cydlynu gwasanaethau cludiant ar draws y Cyngor e.e sicrhau bod rhwydwaith digonol o gludiant cyhoeddus mewn lle.<br><br>Er mwyn lleihau defnydd cludiant rhaid sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn darpariaeth gofal mor agos a phosibl i'w cartrefi. Bydd gofyn datblygu sgiliau oedolion ag anabledd dysgu i wneud gymaint o ddefnydd a phosibl ar gludiant gyhoeddus. Sicrhau bod pobl yn defnyddio budd-daliadau sy'n addas i'w anghenion cludiant i'r pwrpas addas. Hefyd gosod pwyslais cynyddol ar gael defnyddwyr i rhannu ceir. Awgrymir asesu anghenion cludiant a darpariaeth gwasanaeth arwahan. Wrth lunio polisi defnydd cludiant bydd gofyn ystyried hyn yng nghyd-destun canllawiau Llywodraeth Cymru.<br><br>Angen gwneud gwaith pellach yn ddibynnol ar benderfyniad y polisi newydd a chael barn cyfreithiol. | Byddai effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, wrth i'r disgwyliadau ohonynt addasu. Tra'n parhau i gwrdd â gofynion statudol a diwallu anghenion gofal, byddai'n rhaid cydnabod y byddai her o ran rheoli'r newid i lawer iawn o unigolion, a chefnogi pobl trwy gyfnod o ansefydlogrwydd yn eu bywydau. Byddai angen gweithio gyda chymunedau mewn modd cyd-gynhyrchiol i ddeall y disgwyliadau i'r dyfodol, gan addysgu pobl am y newid diwylliant sylweddol sy'n ofynnol. Ar yr un pryd, byddai rhaid helpu defnyddwyr gwasanaeth cyfredol i addasu wrth i'r modd y bydd cynnwys y cynllun gofal a'r elfen cludiant ohono yn newid. | 25,000 | 1.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED6 | Cynyddu Teleofal ym maes Pobl Hyn | Cynyddu'r defnydd o Deleofal, gyda'r nôd o leihau maint pecynnau gofal amgen | Byddai effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, wrth i'r disgwyliadau ohonynt addasu. Tra'n parhau i gwrdd â gofynion statudol a diwallu anghenion gofal, byddai'n rhaid cydnabod y byddai her o ran rheoli'r newid i lawer iawn o unigolion, a chefnogi pobl trwy gyfnod o ansefydlogrwydd yn eu bywydau. Ar yr un pryd, byddai rhaid helpu defnyddwyr gwasanaeth cyfredol i addasu wrth i'r modd y gofelir amdanynt newid.<br>Byddai effaith ar rai darparwyr wrth i lefel y gofal a brynir ganddynt leihau, ond mae'n debyg y byddai cyfleoedd hefyd, o ran dargyfeirio a thyfu i gwrdd â'r weledigaeth aeddfetach o ran cynnig gwasanaethau ataliol a chefnogol. | 544,000 | 11.2 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED7 | Ail fodelu Gwasanaeth Dydd Anableddau Dysgu | Ar hyn o bryd mae dau lefel o gefnogaeth yn cael ei gynnig o fewn gwasanaeth dydd sef cefnogaeth 1:1 neu cefnogaeth lefel grŵp 1-3. Cost cyfredol cefnogaeth 1:1 yw £14.75 tra bod cost cefnogaeth grŵp yn £6.00. Byddai ychwanegu lefel grŵp is na'r un grŵp presennol yn golygu cefnogaeth 1:4/1:5 a hynny ar gost o oddeutu £3. Wrth gwrs byddai angen cynnal trafodaeth a chael cytundeb darparwyr gwasanaeth i'r gost yma. Mae'r cynnig yma yn cydfynd efo'r model 'symud ymlaen' sydd yn cael ei hyrwyddo o fewn y gwasanaeth gan y byddai modd symud unigolion o un lefel o gefnogaeth i'r llall yn unol a'u anghenion. Yr un pryd gweithio tuag at sicrhau lleoliadau gwaith i unigolion fel bod modd cael llwybr symud unigolion ymlaen allan o wasaneth dydd i gael profiadau gwaith gwirfoddol. Byddai'n rhaid buddsoddi mewn 'job coach' ar gyfer darganfod lleoliadau gwaith addas.<br>Bydd gofyn cynnal adolygiad o'r darpariaeth presennol. Yn ogystal ystyried darpariaeth dydd gwahanol ar gyfer oedolion hŷn sydd ag anabledd dysgu ddim angen darpariaeth 5 diwrnod yr wythnos fel maent yn ei dderbyn ar hyn o bryd. | Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, yn y tymor canolig, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, tra'n parhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau. | 85,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED8 | Ail fodelu Gwasanaethau Cefnogol Anableddau Dysgu | Symud i ffwrdd o'r drefn cyfredol o gynnig cefnogaeth 1:1 ar gyfer hyrwyddo cyfleoedd cymdeithasu, hamddena a datblygu sgiliau ar gyfer unigolion. Yn hytrach gwneud mwy o hyn ar sail grwpiau. Fel enghraifft grwpiau coginio, cerdded ac ati. Byddai hyn yn gostwng costau teithio, annog defnydd o adnoddau lleol a chael unigolion i ddarganfod ffyrdd eu hunain o ddod i'r gweithgareddau hyn. | Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, yn y tymor canolig, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, tra'n parhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau. | 180,000 | 7.4 |
| OED9 | Ail fodelu Gwasanaethau Gofal Ysbaid Anableddau Dysgu | Adolygu gwasanaeth ysbaid o ran natur a chost y darpariaeth cyfredol. Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaeth gytundeb gwasanaeth gyda Chartrefi Cymru ar gyfer darparu gofal ysbaid mewn dau eiddo – un ym Mangor a llall yn Nefyn.<br>Angen ystyried darpariaeth llawer mwy addas a chost effeithiol na'r un cyfredol. Mae cost y cytundeb presennol gyda Cartrefi Cymru yn £310,000 y flwyddyn gyda cost un gwely y pen yr wythnos yn £1,000.<br>Angen ystyried opsiynau eraill fel Gwesty Seren a Chynllun Lleoli Oedolion ar gyfer cynnig darpariaeth gofal ysbaid. | Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, yn y tymor canolig, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, tra'n parhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau. | 130,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED10 | Ail fodelu Gwasanaethau Llety Cefnogol Anableddau Dysgu | Gweithio ar y cyd gyda Cymdeithasau Tai/Gwasanaeth Darparu y Cyngor sef perchnogion y tai er mwyn cynyddu defnydd o dechnoleg cynorthwyol ar gyfer cefnogi unigolion mewn tai a chefnogaeth. Mae cyflwyno y dechnoleg yn llwyddiannus yn dibynnu ar y math o lety sydd yn cael ei ddarparu a clymu hyn efo'r gefnogaeth sydd ei angen. Hyn ar waith yn barod fel rhan o'r gwaith adolygu achosion. Hefyd cyflwyno cynlluniau 'key ring' sydd yn golygu cael un tim o weithwyr yn cefnogi unigolion mewn un dalgylch yn hytrach na chefnogaeth gweithwyr mewn tai unigol. Byddai hyn yn cwtogi ar nifer y gweithwyr cefnogol fyddai ei angen. Gwaith cynnal adolygiad I barhau er mwyn sicrhau lefel priodol o gefnogaeth | Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, yn y tymor canolig, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, tra'n parhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau. | 150,000 | 3.1 |
| OED11 | Adolygu Cyfraniad ariannol Iechyd (Gofal Iechyd Parhaus) ym maes Anabledd Dysgu | Adnabod achosion sy'n deilwng ar gyfer cyfraniad ariannol Iechyd tuag at becynnau gofal unigolion – yn llawn neu rhannol yn unol â chanllawiau Gofal Iechyd Parhaus. Gyda rai achosion cymhleth ac anodd rydym yn son am becynau gofal drud a chostus iawn sydd yn pwyso yn fawr ar ein cyllidebau.<br>Y gwaith yma yn rhan o adolygiadau achosion y gwasanaeth ar hyn o bryd. | Dim effaith gan mai cydariannu'r pecynnau gofal gyda Iechyd yw'r bwriad | 100,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED12 | Cynyddu defnydd o'r Cynllun Lleoli Oedolion | Cyflwyno 2 achos newydd i'r cynllun Lleoli Oedolion | Byddai'n rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth cyfredol ymdopi â newid yn eu bywydau, ond rydym yn grediniol, yn y tymor canolig, y byddai'r cynlluniau yn gwella ansawdd bywyd gan eu bod yn gynlluniau sy'n anelu at wireddu'r weledigaeth 'Model Symud Ymlaen'. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio ar rymuso pobl a sicrhau eu bod yn cyflawni eu potensial hwy eu hunain, tra'n parhau i dderbyn y gofal y maent ei angen er mwyn sicrhau eu diogelwch a chyflawni'r canlyniadau gorau. | 91,000 | 2.9 |
| OED13 | Addasu cytundebau darparwyr – rhoi disgwyliad arnynt i wneud arbedion effeithlonrwydd a rhewi ffioedd am 3 blynedd | Rhoi disgwyliad arnynt i wneud arbedion effeithlonrwydd a rhewi ffioedd am 3 blynedd. Ar sail rhagdybiaeth o 3% yn flynyddol (sydd yn debygol iawn ar gyfer 2015/16). | Byddai'r syniadau hyn yn effeithio rhywfaint ar sefyllfa ariannol rhai grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth, ond dylid cofio bod y 'cap' ar becynnau yn gwarchod y rhai mwyaf bregus, felly hefyd yr asesiadau ariannol. Byddai cynyddu Taliadau Uniongyrchol yn rhoi mwy o rym a rhyddid i unigolion gymryd perchnogaeth dros eu gofal eu hunain. | 373,000 | 0.0 |
| OED14 | Cynyddu defnydd o Daliadau Uniongyrchol ac adolygu'r modd y rhoddir cefnogaeth i ddefnyddwyr | Pe baem yn trosglwyddo 1,000 awr yr wythnos (10%) o Ofal Cartref i Daliadau Uniongyrchol, ac yn llwyddo i gynnig cefnogaeth am yr un gost, byddai'r arbediad yn £190k. | Byddai'r syniadau hyn yn effeithio rhywfaint ar sefyllfa ariannol rhai grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth, ond dylid cofio bod y 'cap' ar becynnau yn gwarchod y rhai mwyaf bregus, felly hefyd yr asesiadau ariannol. Byddai cynyddu Taliadau Uniongyrchol yn rhoi mwy o rym a rhyddid i unigolion gymryd perchnogaeth dros eu gofal eu hunain. | 190,000 | 16.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED15 | Caffael cyffredinol (eitemau ag eithrio gofal) yn fwy effeithlon | Caffael cyffredinol (eitemau ag eithrio gofal) yn fwy effeithlon | Byddai'r syniadau hyn yn effeithio rhywfaint ar sefyllfa ariannol rhai grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth, ond dylid cofio bod y 'cap' ar becynnau yn gwarchod y rhai mwyaf bregus, felly hefyd yr asesiadau ariannol. Byddai cynyddu Taliadau Uniongyrchol yn rhoi mwy o rym a rhyddid i unigolion gymryd perchnogaeth dros eu gofal eu hunain. | 10,000 | 0.0 |
| OED16 | Codi incwm mewn meysydd lle nad ydym yn gwneud hynny, er bod yr hawl gennym | Gellid codi incwm blynyddol ychwanegol trwy newid ymarfer fel a ganlyn:<br>Cynyddu graddfa yr awr Gofal Cartref (i lefel y taliad isaf i'n darparwyr) - £28k<br>Newid sail asesiad unigolion o dan oed pensiwn - £67k<br>Eithrio Teleofal o ganllawiau 'Taliadau Teg' - £160k (wrthi'n gweithredu ar hwn)<br>Codi am wasanaeth 'therapitig' gofal dydd - £6k | Byddai'r syniadau hyn yn effeithio rhywfaint ar sefyllfa ariannol rhai grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth, ond dylid cofio bod y 'cap' ar becynnau yn gwarchod y rhai mwyaf bregus, felly hefyd yr asesiadau ariannol. Byddai cynyddu Taliadau Uniongyrchol yn rhoi mwy o rym a rhyddid i unigolion gymryd perchnogaeth dros eu gofal eu hunain. | 261,000 | 0.0 |
| OED17 | Lleihau haenau rheolaethol, a nifer rheolwyr, trwy adolygu ein model o weinyddu 3 ardal (a hynny heb golli presenoldeb lleol ar gyfer ein cwsmeriaid) | Lleihau haenau rheolaethol, a nifer rheolwyr, trwy adolygu ein model o weinyddu 3 ardal (a hynny heb golli presenoldeb lleol ar gyfer ein cwsmeriaid) | Byddai'r syniadau hyn yn effeithio yn bennaf ar staff yr Adran, a'r gobaith yw y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn profi gwell gofal cwsmer. | 218,000 | 5.0 |
| OED18 | Ail-gynllunio gwasanaeth Rheng Flaen. Mae'r cynnig yn cynnwys cyfuno rolau rhai sy'n asesu gofal (Galluogi a Rheoli Gofal) | Mae'r cynnig yma yn cynnwys cyfuno rolau rhai sy'n asesu gofal (Galluogi a Rheoli Gofal) | Byddai'r syniadau hyn yn effeithio yn bennaf ar staff yr Adran, a'r gobaith yw y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn profi gwell gofal cwsmer. | 350,000 | 9.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED19 | Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran | Mae’r Gwasanaeth Oedolion yn:<br>1) Archebu a thalu am wasanaethau.<br>2) Cynnal profion modd ar ddefnyddwyr gwasanaeth.<br>3) Codi tal am y gwasanaethau a ddarperir.<br>4) Adrodd ar y gweithgareddau hyn (cyfrifon a gwybodaeth reolaethol).<br><br>Ar y cyfan trefniadau papur sydd gan y gwasanaeth i weinyddu’r gwaith hwn gydag amrywiol systemau cyfrifiadurol mewnol yn awtomeiddio rhai elfennau o’r gwaith.<br><br>Mae’r syniad hwn yn cynnig dod a’r trefniadau uchod i gyd at ei gilydd a’i gweinyddu trwy un system gyfrifiadurol. Bydd hyn yn awtomeiddio pob agwedd o’r gwaith ac osgoi dyblygu gwaith a gwella gwybodaeth reolaethol. | Byddai’r syniadau hyn yn effeithio yn bennaf ar staff yr Adran a’n cysylltiad gyda’n darparwyr gofal o ran hwyluso prosesau. | 60,000 | 3.0 |
| OED20 | Tynhau gweithdrefnau a phrosesau gwaith aneffeithlon, ac ystyried ein defnydd o dechnoleg, yn cynnwys EDRMS a System Rheoli Gofal newydd | Tynhau gweithdrefnau a phrosesau gwaith aneffeithlon, ac ystyried ein defnydd o dechnoleg, yn cynnwys EDRMS a System Rheoli Gofal newydd | Byddai’r syniadau hyn yn effeithio yn bennaf ar staff yr Adran, a’r gobaith yw y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn profi gwell gofal cwsmer. | 33,000 | 2.0 |
| OED21 | Integreiddio swyddi gyda’r Bwrdd Iechyd | Integreiddio swyddi gyda’r Bwrdd Iechyd | Byddai’r syniadau hyn yn effeithio yn bennaf ar staff yr Adran, a’r gobaith yw y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn profi gwell gofal cwsmer. | 30,000 | 1.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| OED22 | Ystyried Tai Gwarchod/TGY fel llety amgen i wlau preswyl | Mae cynllun wedi ei selio ar uchafu mynediad i Gynlluniau Tai Gofal Ychwanegol sy'n cael eu datblygu ynghyd ac adolygu trefniadau darparu gofal yn Awel y Coleg yn Y Bala .Er mwyn i elfennau gofal fod yn gost effeithiol rhaid sicrhau cydymffurfiaeth a'r model gwreiddiol sef<br>• 40% o denantiaid ag anghenion gofal uchel<br>• 30% o denantiaid ag anghenion gofal cymedrol<br>• 30% o denantiaid angen tai â chefnogaeth<br>Mae llwyddiant yn hollol ddibynnol ar allu trawsnewid ein gwasanaethau a dwyn perswad ar drigolion Gwynedd i symud i gynlluniau tai gofal a chefnogaeth . | Mae gan ddefnyddwyr sy'n symud i fyw i dai gofal ychwanegol anghenion tai a gofal / cefnogaeth. Mae Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn cynnig ymdeimlad o ddiogelwch i'r unigolion a disgwylir i unigolion fod gydag agwedd bositif tuag at gadw eu hannibyniaeth. Gall hyn arwain at lefelau staffio is. | 400,000 | 17.2 |
| TAI1 | Dileu cytundeb Cynllun Wardeiniaid Cymunedol | Terfynu cytundeb presennol gyda Cartrefi Cymunedol Gwynedd. | Dim effaith gan y bydd y gwaith yn parhau i gael ei ariannu gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd. | 64,540 | 0.0 |
| TAI2 | Dileu penawdau gwariant ac arbedion o fewn y gwasanaeth | Dileu ac addasu rhai cyllidebau gwariant o gyllideb tai | Dim effaith | 16,500 | 0.0 |
| TAI3 | Arbedion Llety Dros Dro | Ceisio cyflwyno ffyrdd amgen o ddarparu Llety Dros Dro ar gyfer Pobl Sengl a lleihau dibynniaeth ar ddulliau mwy traddodiadol yn benodol Gwely a Brecwast. | Dim effaith gan y byddwn yn parhau i ddarparu llety dros dros ond yn ceisio gwneud hynny mewn ffordd amgen fydd yn rhatach a mwy cynhaliadwy.<br><br>Mewn rhai amgylchiadau gall y trefniadau amgen yma fod yn fanteisiol i rai unigolion gan y bydd yn rhoi mwy o sefydlogrywdd o'i gymharu ar y defnyddio o hosteli a gwasanaeth gwely a brecwast. | 100,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| TAI4 | Adolygu'r strwythurau a lleoliadau presennol y Gwasanaeth Tai | Adolygu'r modd a'r lleoliadau a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau presennol a chyflwyno newidiadau strwythurol i adlewyrchu'r newid.<br><br>Gall olygu fod rhai gwasanaethau yn cael eu canolbwyntio mewn llai o leoliadau (2 yn lle 3 ) ac o bosibl addasu trefniadau drws agored wyneb yn wyneb i'r cyhoedd i amser neu ddyddiau penodol.<br><br>Byddwn yn ymdrechu i ddiogelu presennoldeb y gwasanaeth tai ymhob ardal er efallai y bydd am gyfnod pendodol neu drwy apwyntiiad. | Byddwn yn parhau i ddarparu'r un gwasanaeth ond mewn ffordd wahanol a bydd efennau gwahanol yn cael eu canolbwyntio mewn llai o leoliadau. Er yn debygol o effeithio'r lleoliadau presennol sy'n cynnig drws agored wyneb i wyneb bydd mesurau lliniarol yn cael ei cyflwyno i hwyluso cyswllt a bydd gwasanaeth argyfwng. | 130,000 | 2.3 |
| TAI5 | Cynyddu ffioedd ar gyfer landlordiau sy'n gosod tai mewn aml-ddeiliadaeth. | Mae'n drefn o gofrestru ac arwchwilio wedi ei chroesawu gan drigolion Gwynedd gan ei bod yn sicrhau safonnau diogelwch uchel mewn anheddau, ac yn gorfodi cyfrfoldebau rheolaeth ar landlordiaid.<br><br>Mae ffioedd Gwynedd yn isel o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Ngymru. Nid oes bwriad i godi'r ffioedd uwchlaw awdurdodau eraill.<br><br>Bydd cynllun ffioedd newydd yn cael eu cyflwyno ar y cyd gyda Cynllun Trwyddedu newydd Llywodraeth Cymru ar ddiwedd 2015, bydd y ffioedd yn parhau yn sefydlog hyd nes ddiwedd y cynllun yn 2020. Mae trwydded yn parhau am gyfnod o 5 mlynedd, golyga hyn fod cost yr uned o lety yn flynyddol yn £115, sef £2.21 yr wythnos, credir bod hyn yn rhesymol. | Effaith ar landlordiaid tai aml-ddeiliadaeth | 20,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| DaCh1 | Ad-drefnu Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau | Bwriedir dileu swydd y Rheolwr Cofrestru oddi ar strwythur y Gwasanaeth ag ailwampio dyletswyddau a chyfrifoldebau.<br><br>Wrth ail-strwythuro'r gwasanaeth yn ardaloedd Dwyfor a Meirionnydd bydd y darpariaeth yn yr ardaloedd hyn yn llai. Ni fyddai'n bosib cynnig y gwasanaeth o'r safleoedd cofrestru ym Mhorthmadog, Tywyn a Bala<br><br>Mae'n bosib y bydd y safonau uchel o fodlonrwydd cwsmer a welir ar hyn o bryd yn gostwng.<br><br>Hefo'r gwasanaeth prosesu tystysgrifau bydd yn rhaid edrych i gynyddu'r cyfnod prosesu ceisiadau o 7 i 10 diwrnod. | Ni fyddai'n bosib i'r cofrestryddion cynnig cyfweliadau "Tell Us Once" rhan 2 wyneb yn wyneb.<br><br>Gwneir defnydd o adnodd staffio ychwanegol yn y prif swyddfa gofrestru i helpu hefo prosesu tystysgrifau ac i wirio gwaith y cofrestryddion. Serch hynny mae'n bosib y bydd y safonau uchel o fodlonrwydd cwsmer a welir ar hyn o bryd yn gostwng. | 44,000 | 1.0 |
| DaCh2 | Cynyddu Incwm Cofrestru Genedigaethau, Marwolaethau a Phriodasau | Cynyddu incwm y Gwasanaeth Cofrestru trwy gynyddu ffioedd a chyflwyno ffioedd newydd<br><br>Adnabuwyd y ffyrdd canlynol:<br>(i) Codi ffi uwch am seremonïau yn y Swyddfeydd Cofrestru ar benwythnosau<br>(ii)Ychwanegu elfen o godiad uwchben chwyddiant i ffioedd seremonïau mewn adeiladau wedi eu cymeradwyo<br>(iii)Ystyried cyflwyno ffi archebu slot priodas dros 12 mis i ffwrdd<br>(iv) Cynyddu y ffi am geisiadau brys am dystysgrifau i £10 | Cynyddu cost rhai gwasanaethau a ddefnyddir gan y cyhoedd | 9,000 | 0.0 |
| CC1 | Arbedion drwy gyflwyno newidiadau technegol | Lleihau'r ddibyniaeth ar gefnogaeth cwmni ORACLE ar gyfer y CRM yn sgil uwchraddio technegol a chyflwyno newidiadau i system ffons Galw Gwynedd. | Dim effaith gan y bydd Uned Technoleg Gwybodaeth y Cyngor yn parhau i gynnal a chadw'r system. | 36,000 | 0.0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| CC2 | Ailstrwythuro'r Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer | Uchafu cynhyrchaeth trwy ddefnyddio capasiti ar draws y tîm cyfan er mwyn cwtogi ar yr adnoddau a ddarperir i gyflawni gwaith gweinyddol ac i ddarparu gwasanaethau rheng flaen<br>Diddymu'r Tîm Trawsnewid Busnes<br><br>Diddymu swyddi o fewn Cyswllt Cwsmer a Cofrestru trwy gyfuno timau i weithio fel un yn hytrach nag ar wahân i'w gilydd | Byddai rhai apwyntiadau Cofrestru yn cael eu cynnal gan staff Siopau Gwynedd yn hytrach na Chofrestryddion. Byddai mwy o apwyntiadau yn cael eu cynnal yn Siopau Gwynedd nag sydd ar hyn o bryd yn hytrach na lleoliadau eraill o fewn y Cyngor. | 121,000 | 5.0 |
| **CYFANSWM** | | | | **4,054,040** | **90.6** |

**ADRAN PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| P1 | Dileu swydd Rheolwr Busnes Maethu | Fel rhan o gynllun buddsoddi i arbed rhoddwyd swydd Rheolwr Busnes ar strwythur y tim. Mae'r cynllun busnes eisoes wedi gwireddu arbedion ar wariant maethu allanol drwy gynyddu'r nifer o ofalwyr maeth mewnol. Fe gyflogwyd 2 Weithiwr Cymdeithasol ychwanegol er mwyn gweithredu'r cynllun a bydd y swyddi hynny'n parhau. Pwrpas y swydd Rheolwr Busnes oedd i gynnal ffocws penodol ar strategaeth farchnata ac i gefnogi rheolaeth swyddfa/busnes y tim gan fod hwnnw bellach llawer fwy cymhleth oherwydd ei faint. | Dim effaith gan y bydd gydd gwaith y tim yn parhau drwy'r gweithwyr cymdeithasol | 33,450 | 1 (G) |
| P2 | Ail gomisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yn rhanbarthol | Ers 2011 mae Gwynedd wedi comisiynu Gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol, annibynnol ar y cyd gyda Ynys Mon a Conwy.<br>Fe sefydlwyd Grwp Tasg a Gorffen i ail edrych ar y gytundeb ar draws y Gogledd a disgwylir arbediad o'r gwaith hwnnw. | Dim effaith gan mai caffael yn wahanol yw'r bwriad. | 20,000 | 0 |
| P3 | Dileu swydd Mechniaeth a Remand | Dileu swydd Mechniaeth a Remand o'r Tim Cyfiawnder Ieuenctid.<br>Bydd y rol a'r dyletswyddau yn cael eu trosglwyddo i'r tim rheoli achos. | Dim effaith gan y bydd gydd gwaith yn parhau drwy'r tim rheoli achos | 20,238 | 1 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| P4 | Adolygiad o Strategaeth Gofal | O gynnal adolygiad o ddewisiadau lleoli plant a phobl ifanc, bydd yr adran yn ystyried goblygiadau peidio a chynnal uned breswyl. Byddwn yn pwyso a mesur datblygu opsiynnau eraill er mwyn diwallu anghenion lleoli gan gynnwys datblygu lleoliadau maethu fydd yn diwallu anghenion o fewn amglychedd teuluol yn hytrach nag mewn amgylchedd grwp. | Dim effaith gan y byddwn yn datblygu lleoliadau maethu amgen | 378,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| P5 | Adolygiad Dechrau i'r Diwedd | Sgôp yr adolygiad oedd edrych ar system y Gwasanaeth Plant yn ei gyfanrwydd, ond yn benodol felly y plant rheini sydd mewn angen ac mewn gofal. Cyfeirir at y rhain fel Haen 3 (Plant Mewn Angen) a Haen 4 (Plant Mewn Gofal) - sef rhan o gyfrifoldeb statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol. Amlygwyd yn ystod yr adolygiad y byddai ystyried strwythurau traddodiadol a statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn unig (Haen 3 a 4), a pheidio bod yn ymwybodol o drefniadau Haen 1 a 2, yn risg ar gyfer cynllunio i'r dyfodol. Cytunwyd felly i ehangu rhywfaint ar y sgôp gwreiddiol trwy sicrhau ystyriaeth lawn ar gyfer pob haen wrth gynllunio a gweithredu'r newidiadau canlynol.<br><br>Cynnig 1 - Mynediad at wasanaethau<br>Cynnig 2 - un drws ffrynt<br>Cynnig 3 - Tim Aml-asiantaethol<br>Cynnig 4 - Tim Trothwy GOfal<br>Cynnig 5 - Rheoli Lleoliadau | Dim effaith gan y byddwn yn canolbwyntio ar wasanaeth ataliol | 587,000 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| P6 | Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched De Gwynedd | Yn hanesyddol mae Gwasanaeth Plant Gwynedd wedi cyfrannu arian drwy gytundeb lefel gwasanaeth i Cymorth i Ferched Bangor ers nifer fawr o flynyddoedd. Yn wreiddiol roedd y cyfraniad y sylweddol uwch na’r hyn sydd yn cael ei ddyrannu yn gyfredol a chytunwyd i gwtogi ar yr arian rhyw 5 mlynedd yn ôl. Ers hynny mae’r arian sydd yn cael ei gyfrannu yn talu am weithiwr plant rhan amser sydd yn rhoi gwasanaeth yn y gymuned i blant unigol ac yn gwneud gwaith codi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol.<br><br>Mae’n debygol y bydd barn fod yr argymhelliad yma yn cael ei weld fel torri gwasanaeth, ond hyd yn oed heb y cyfraniad yma ni fyddai cyfrifoldebau a dyletswyddau statudol yr Adran tuag at blant sydd yn byw mewn sefyllfa trais yn y cartref yn newid. Mae Cymorth i Ferched Bangor yn derbyn arian sylweddol drwy ffynhonellau eraill ac yn hanesyddol mae Gwynedd, yn wahanol i awdurdodau eraill, wedi bod yn rhoi cyfraniad o arian craidd gwasanaeth trwy gytundeb i’r mudiad.<br><br>Ar hyn o bryd mae'r swydd yn wag ym Mangor. | Ychydig o effaith o risg isel | 33,810 | 0 |
| P7 | Dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth gyda Cymorth i Ferched Bangor | | Ychydig o effaith o risg isel | 20,060 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| P8 | Cynllun Maethu | Nifer o blant yn symud allan o faethu allanol dros y 3 blynedd yn unol a'u penblwyddi | Dim effaith gan y bydd y plant yn cyrraedd 18oed a lleoliadau maethu menwol mewn lle ar gyfer plant yn dod i ofal | 220,000 | 0 |
| **CYFANSWM** | | | | **1,312,558** | **2** |

**STRATEGOL A GWELLA**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| SaG1 | Lleihau cyllidebau cyffredinol | Lleihau gwariant ar amrywiol gyllidebau oherwydd tan wariant rheolaidd | Dim | 67,000 | 0.00 |
| SaG2 | Partneriaeth Gwynedd a Môn | Lleihau 2 swydd yn y tîm Cefnogol Partneriaeth Gwynedd a Môn yn sgil cydweithio gyda môn ar y bartneriaethLleihau | Dim, cynnal perfformiad gyda llai o adnoddau | 44,000 | 2 (G) |
| SaG3 | Cefnogaeth Weinyddol | Lleihad yn y gefnogaeth weinyddol i'r Adran yn sgil gweithredu EDRMS a Ffordd GwyneddLleihad | Dim effaith oherwydd cynnal perfformiad gydag adnoddau llai drwy ddefnydd o dechnoleg a symleiddio prosesau | 50,005 | 1.50 |
| SaG4 | Uned Perfformiad | Dileu swydd yn yr Uned Perfformiad corfforaethol | Dim, cynnal perfformiad gyda llai o adnoddau | 34,000 | 1 (G) |
| SaG5 | Comisiynu gwaith dewisol | Dileu cyllideb datblygu polisi | Lleihad yn y gwariant gyda ymgynghorwyr allanol | 20,000 | 0.00 |
| SaG6 | Ymchwil a dadansoddeg | Lleihau'r gefnogaeth dadansoddeg ac ymchwil | Risg ein bod yn gwneud penderfyniadau ar sail llai gwybodus | 30,000 | 1.00 |
| SaG7 | Cefnogaeth Democrataidd | Adolygu trefniadau a strwythur cefnog aelodau | Dim | 30,000 | 1.00 |
| SaG8 | Cynllunio Strategol a Rheoli Perfformiad | Adolygu'r drefn a strwythur cefnogol ar gyfer adnabod blaenoriaethau a rheoli perfformiad y Cyngor yn unol â chyfeiriad Ffordd Gwynedd. | Cynyddu'r risg wrth ddewis materion allweddol i'w gwella, a cynyddu'r risg o ran cyflawni cynlluniau gwella | 140,000 | 4.00 |
| DaCh8 | Dileu swydd Swyddog Cydraddoldeb Anabledd | Gan fod y swydd yn wag ar hyn o bryd, peidio â'i llenwi a dileu'r swydd o'r sefydliad. | Ni fydd bellach swyddog penodol yn gyfrifol am sicrhau gweithredu'n unol â Chynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd ar draws y Cyngor o safbwynt anabledd, a chryfhau cysylltiadau allanol gyda mudiadau ac unigolion anabl er mwyn datblygu ar y Cynllun ymhellach | 33,430 | 1 (G) |
| DaCh9 | Lleihau oriau gwaith y Rheolwr Polisi Cydraddoldeb ac Iaith | Mae'r Rheolwr Polisi Cydraddoldeb ac Iaith yn gweithio 4 diwrnod yr wythnos ar hyn o bryd am gyfnod o 2 flynedd (hyd at 31.07.15). Y cynnig ydi gwneud y trefniant yn barhaol. | Dim effaith sylfaenol ar allu'r Cyngor i gydymffurfio â'i Gynllun Strategol Anabledd na'i Gynllun Iaith (a'r Safonau Iaith arfaethedig). Y swyddog eisoes yn gweithio 4 diwrnod yr wythnos a dim tystiolaeth fod problem. | 8,090 | 0.20 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| DaCh10 | Rhesymoli'r Gwasanaeth Cyfieithu | Rhesymoli trefniadau ac effeithlorwydd y Gwasanaeth Cyfieithu er mwyn lleihau costau ac arbed gwariant di-angen ar gyfieithu y tu allan i'r Cyngor heb leihau capasiti sylfaenol y Cyngor i weithredu yn unol â'i bolisi iaith.<br><br>Byddai dwy ran i'r arbediad:-<br>• Diwygio strwythur staffior uned er mwyn lleihau costau (oddeutu £10,000)<br>• Moderneiddio a rhesymoli trefniadau gwaith er mwyn lleihau cost gyrru gwaith yn allanol (oddeutu £15,000) | Mae Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor yn darparu y dylai pob dogfen gyhoeddus fod yn ddwyieithog ac y bydd gan bawb yr hawl i siarad Cymraeg neu Saesneg yn holl gyfarfodydd y Cyngor, ei bwyllgorau a'i is-bwyllgorau, paneli a.y.b. Ar y sail yma nid oes modd lleihau'r galw am wasanaeth cyfieithu a byddai'n rhaid ei ddarparu drwy fwy o ddefnydd o gyfieithwyr allanol os byddai angen. | 25,000 | 0.00 |
| DaCh11 | Cynyddu ffioedd cyfieithu | Cynyddu lefel y ffioedd a godir gan yr Uned Gyfieithu ar bartneriaethau ayb am wasanaethau cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd. Codi am gostau teithio. | Dim effaith | 10,365 | 0.00 |
| DaCh7 | Cwtogi staff Cabinet | Cwtogi 5% ar staff cefnogi'r cabinet – nid oes modd cwrdd ag arbediad effeithlonrwydd o fewn y tîm yma heb leihau'r oriau gwaith sydd ar gael i gefnogi'r Cabinet, yr Arweinydd, y Cadeirydd a'r Arglwydd Raglaw. Mae 5% gyfystyr â thraean o swydd.<br><br>Yn sylfaenol mae'r Tîm Cabinet eisoes yn cael trafferth i gyfarfod â gofynion eu swyddogaeth. Byddai rhaid edrych yn fanwl ar flaenoriaethu y gofynion ar y Gwasanaeth ac ar ble fyddai modd cyllido y gostyngiad. Fodd bynnag byddai ardrawiad ar dîm cymharol fychan yn arbennig felly ar ddarparu "cover" gwyliau a salwch. Byddai angen edrych efallai ar lefel angenrheidiol cyllidebau megis Cronfa'r Cadeirydd. | Cwtogi cefnogaeth ar gyfer yr Arweinydd a'r Cabinet | 4,650 | 0.30 |
| **CYFANSWM** | | | | **496,540** | **12.00** |

**TIM RHEOLI CORFFORAETHOL**

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| TRh1 | Dileu swyddi uwch arweinyddiaeth o fewn y Cyngor - Gwedd 1 | Dileu swyddi Pennaeth Gofal Cwsmer, Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ynghyd a newidiadau eraill cysylltiedig – cynigion a gymeradwywyd eisoes gan y Cyngor. | Dim – heblaw cynyddu'r posibilrwydd o oedi yn ein gallu i ymateb i rai materion efallai a cholled profiad swyddogion profiadol. | 496,900 | 5.00 |
| TRh2 | Dileu 1 swydd uwch arweinyddiaeth pellach o fewn y Cyngor (a'r gefnogaeth iddi) yn dilyn penodi Prif Weithredwr yn fewnol - Gwedd 2 | Dileu 1 swydd uwch arweinyddiaeth pellach o fewn y Cyngor (a'r gefnogaeth iddi) yn dilyn penodi Prif Weithredwr yn fewnol. Ni ddaethpwyd i gasgliad eto pa swydd y dylid ei dileu ond dylid medru dileu un swydd mewn unrhyw ystyriaeth o sut i ddygymod gydag ymddeoliad y Prif Weithredwr.<br><br>'Roedd dileu swydd yn rhan o'r achos busnes dros ganiatau i'r Prif Weithredwr ymddeol yn gynnar. | Dim – heblaw cynyddu'r posibilrwydd o oedi yn ein gallu i ymateb i rai materion efallai a cholled profiad swyddogion profiadol. | 108,580 | 2.00 |
| TRh3 | Newyddion Gwynedd - lleihau nifer rhifynnau o dri i ddau o 2017/18 ymlaen | Wrth i nifer cynyddol o breswylwyr ddewis derbyn gwybodaeth am y Cyngor yn ddyddiol o ffynonellau electronig, (cyfrifon Trydar a Facebook y Cyngor a gwefan y Cyngor), ac wrth i ni ei hyrwyddo ymhellach, gellid ystyried lleihad pellach yn 2017/18.<br><br>Byddem yn parhau i gyhoeddi isafswm o ddau rifyn yn flynyddol (ar ffurf papur newydd a CD ar gyfer pobl ddall) o 2017/18 ymlaen er mwyn cyfarch anghenion gwybodaeth y preswylwyr hynny sydd yn methu neu sydd yn dewis peidio derbyn gwybodaeth drwy'r cyfryngau electronig. | Er bod y niferoedd sy'n dewis derbyn gwybodaeth am y Cyngor drwy ddulliau electronig yn cynyddu yn sylweddol, mae'r dulliau "traddodiadol" o dderbyn gwybodaeth yn parhau i gael eu ffafrio gan y mwyafrif.<br><br>Mae'r effaith yn uniongyrchol gysylltiedig gyda'r niferoedd fydd yn fodlon derbyn gwybodaeth yn electronig. | 10,000 | 0.00 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| TRh4 | Dileu swydd Cymhorthydd Cyfathrebu o fewn yr Uned Gyfathrebu o 2017/18 wrth adolygu trefniadau gweithio | Dileu swydd o fewn yr Uned Gyfathrebu o 2017/18 wrth adolygu trefniadau gweithio.<br><br>Ar hyn o bryd mae pum swydd o fewn yr Uned Gyfathrebu. Rhagwelir y bydd angen y lefel yma o ddarpariaeth am y cyfnod 2014/15 - 2016/17 er mwyn ymateb i anghenion cyfathrebu, ymgysylltu a marchnata'r Cyngor drwy'r cyfnod hynod heriol sydd o'n blaenau.<br><br>Os rhagwelir y bydd y Cyngor wedi cwblhau'r mwyafrif o'r cynlluniau cyfathrebu sydd ynghlwm a'r prif gynlluniau arbedion erbyn Chwarter 1, 2017/18, a chan ystyried y byddwn wedi cael cyfle i weithredu ar egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy ein holl weithgareddau cyfathrebu erbyn hynny, gan ddylunio ffordd wahanol o weithredu'r swyddogaeth gyfathrebu, rhagwelir y gellid diddymu un swydd. | Oni bai fod modd lleihau'r ymdrech sydd ei angen drwy weithredu ar egwyddorion Ffordd Gwynedd neu fod y gwaith cyfathrebu sylfaenol yn gostwng, fe allasai diddymu'r swydd gynyddu'r risg:<br>i) na fydd preswylwyr yn deall y rhesymeg dros newidiadau i wasanaethau lleol<br>ii) na fydd preswylwyr yn deall sut i gael mynediad i wasanaethau ar eu newydd wedd wrth i brosesau mewnol y Cyngor newid mewn ymateb i'r sefyllfa ariannol<br>iii) na fydd yn bosib darparu gwasanaeth cyfryngau cymdeithasol llawn i'r cyhoedd.<br><br>Mae'n anodd maintioli'r risg yma ar hyn o bryd heb fynd drwy'r broses newid. | 24,900 | 1.00 |
| TRh5 | Tim Cynllunio Argyfwng Gogledd Cymru | Targed arbedion wedi cael ei osod ar yr Uned Cynllunio Argyfwng ar y cyd ar draws Gogledd Cymru i wireddu arbediad effeithlonrwydd pellach.<br><br>Nid oedd modd gofyn am hyn ar adeg sefydlu'r Uned (hynny newydd ddigwydd) ond cytunwyd y byddai modd gwneud hynny yn y tymor hir unwaith y byddai'r Uned wedi sefydlogi. | Dim – y bwriad yw y dylai'r Uned Cynllunio Argyfwng Gogledd Cymru ddod yn fwy effeithlon heb amharu ar allu cynghorau i fedru ymateb i argyfyngau. | 7,000 | 0.00 |
| TRh6 | Lleihau cyllidebau yn sgil gwaith caffael | Yn sgil adolygu trefniadau caffael rhagwelir y gellir lleihau cyllidebau rhai penawdau deunyddiau a chyflenwadau. | Dim – parhau i archebu'r un deunydd am gost llai. | 1,810 | 0.00 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| TRh7 | Dileu cyllidebau blaenoriaeth is | Dileu cyllidebau sydd ar gael ar gyfer ariannu cynlluniau a hyrwyddir gan y Tim Rheoli. | Dim amlwg. Bydd yn lleihau ein gallu i fod yn ystwyth o ran ariannu cynlluniau allasai ddod i'r amlwg ond gellir ystyried cynlluniau unigol fel y byddant yn codi, a phwyso a mesur blaenoriaeth y cynlluniau hynny yn erbyn y pris fyddai'n rhaid ei dalu os am eu hariannu. | 7,810 | 0.00 |
| DaCh4 | Cwtogi cyllideb cyhoddusrwydd Cofrestru Etholwyr | Mae yna drefn cofrestru etholwyr newydd yn dod i fewn eleni ond ar y ddamcaniaeth y bydd wedi ymsefydlu ar seiliau cadarn erbyn 2017/2018 yna ni fydd angen cadw cymaint yn y gyllideb yma. | Bosib y bydd yna effaith ar ardaloedd difreintiedig lle mae canran isel o'r boblogaeth wedi eu cofrestru ar y Gofrestr Etholwyr. | 5,000 | 0 |
| DaCh5 | Mân arbedion cyllidebol cyfreithiol | Cwtogi Cyllideb Cyfreithiol:<br>1. Tystysgrifau Ymarfer -£2,000<br>2. Hyfforddiant £-1,000<br>3. Dodrefn ac Offer -£1,000<br>4. Llyfrau - £3,000<br>5. Costau wrthgefn Cyfretithiol - £2,000 | Dim effaith | 9,000 | 0 |
| DaCh13 | Arbedion yng nghyllideb y Crwner | Y Cyngor sy'n gyfrifol am dalu costau gwasanaeth y Crwner. 'Mae'r gyllideb (ar gyfer Gwynedd) yn 2014/15 yn £276,000 gydag Ynys Môn yn cyfrannu £177,500 arall. Y prif wariant ar y gyllideb ydi'r costau meddygol am archwiliadau post mortem a chostau trefnwyr angladdau.<br><br>Rhagwelir newidiadau yn y gwasanaeth yn ystod y blynyddoedd nesaf yn sgil newid diweddar mewn deddfwriaeth a'r anogaeth i ymuno ardaloedd crwneriaid pan fo'r cyfle yn codi. O ganlyniad mae'n debyg y daw cyfleoedd i gyflawni arbediad yn y gyllideb a chredir ei bod yn rhesymol gosod amcan o 5% o arbediad effeithlonrwydd ar y gwasanaeth. | Dim effaith | 13,795 | 0 |

| Cyf | Teitl y Cynnig | Disgrifiad Byr o'r Cynnig | Effaith ar bobl Gwynedd | Cyfanswm | FTE's yr effeithir |
|---|---|---|---|---|---|
| DaCh14 | Cwtogi cyllideb etholiadau | Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol mae unrhyw arian sydd dros ben yn y gyllideb yn cael ei gronni mewn cronfa. Y gronfa honno sy'n darparu'r gyllideb ar gyfer etholiadau arferol y Cyngor bob pedair blynedd.<br><br>Ar hyn o bryd mae swm o £170,500 yn y gronfa. Mae'r gost o redeg etholiadau ar draws pob etholaeth yn y sir oddeutu £190,000. Cost etholiadau 2012, pan gafwyd etholiad mewn 52 rhanbarth etholiadol, oedd £140,000.<br><br>Gan fod dyddiad yr etholiad nesaf yn debyg o gael ei ohirio tan 2017, mae'n deg casglu nad oes angen y cyfan o'r gyllideb flynyddol dros y blynyddoedd nesaf. | Dim effaith | 12,000 | 0 |
| DaCh15 | Mân arbedion cyllidebol cyffredinol | Yn sgil yr ail-strwythuro nid oes angen rhai o benawdau cyllideb reolaethol yr Adran mwyach felly'r cynnig ydi dileu'r symiau o'r gyllideb. | Dim effaith | 26,070 | 0 |
| **CYFANSWM** | | | | **722,865** | **8.00** |
| | | | | | |
| **HOLL GYFANSWM** | | | | **14,896,552** | |
| **ADDASIAD AR GYFER ARBEDION DYLEDUS I'R GYFUNDREFN FLAENOROL** | | | | **-200,000** | |
| **HOLL GYFANSWM** | | | | **14,696,552** | |

# CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Os am gymorth gyda llenwi'r templed yma, cysylltwch â Ruth Richards, Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ruthrichards@gwynedd.gov.uk est. 2056

**Adolygiad Strategol Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

Iwan Trefor Jones
Eleri Llewelyn Owen

## 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayb.

Penaethiaid ysgolion a'r gweithlu
Rhieni
Plant a phobl ifanc
Y Llywodraethwyr
Gwasanaethau Cymdeithasol
Gwasanaeth Iechyd
CBAAA

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

Ymgysylltu ar gychwyn yr Adolygiad 2012, gyda phwyslais penodol ar ganlyniadau cydraddoldeb i ddefnyddwyr

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

7.10.14 (adroddiad yn mynd ger bron y Cabinet)

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH

Nodwch pam fod angen y polisi a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

Amcan yr adolygiad yw:
"Sicrhau fod plant a phobl ifanc (rhwng 2 ac 18 oed) sydd ag anghenion addysgol arbennig yn manteisio ar gyfleodd ac yn ennill profiadau sydd wedi'i eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i gyflawni eu potensial.

Cynhelir yr Adolygiad yma yng nghyd-destun newid arwyddocaol yn y maes yn cynnwys:

- Materion deddfwriaethol
- Hoelio sylw ar ymyrraeth gynnar ac ataliol
- Adeiladu Ysgol arbennig newydd Meirion/ Dwyfor

- Arbedion effeithlonrwydd – rhaglen arbedion y Cyngor

Mae'r canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni drwy'r Adolygiad yn cynnwys:

- darpariaeth sy'n rhoi llawer mwy o bwyslais ar y blynyddoedd cynnar, gan geisio adnabod cyflyrau yn gynnar iawn ym mywydau plant fel y gall hynny gael effaith ar eu haddysg a'u bywydau yn gyffredinol;
- trefniadau amlasiantaethol cadarn o gyd-weithio a fydd yn arwain at rannu gwybodaeth, a sicrhau cydgynllunio effeithiol ar gyfer addysg a datblygiad plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth ychwanegol;
- system  sy'n ymyrryd yn gynnar a buan wrth i anghenion plentyn ddod i'r amlwg, gan ymateb yn brydlon a rhoi cefnogaeth ychwanegol ar waith yn syth – beth bynnag fo oedran y plentyn;
- Cynnig gwasanaeth sy'n sicrhau bod ansawdd uchel yn perthyn i'r profiadau addysgol, a bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn y cymorth ychwanegol yn gwneud cynnydd addysgol ar gyflymder priodol, ac yn cyfrannu at hyrwyddo eu hannibyniaeth.

**6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**

Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

Mae'r Adolygiad o'r cychwyn wedi canolbwyntio ar anghenion y plant a'r bobl ifanc sy'n derbyn cefnogaeth ar hyn o bryd ac i'r dyfodol.

- Cynhaliwyd sgyrsiau a sesiynau trafod gyda defnyddwyr, darparwyr a chomisiynwyr y gwasanaeth yn ystod y broses:
- Ymweliadau ysgolion – fe ymweldwyd â sampl o 17 ysgol i drafod y sefyllfa gyfredol yng nghyd-destun eu darpariaeth ADY
- Cyfarfodydd ymgysylltu – Penaethiaid torfol, athrawon a chymorthyddion
- Fforymau Cydlynwyr – wedi gwahodd Cydlynwyr pob Ysgol i gyfarfodydd penodol
- Awdit Sgiliau – holiadur ar lein i ganfod mwy o wybodaeth am sefyllfa gwaith y cymorthyddion
- Bwrdd Rheoli Derwen
- Grŵp Newid diwylliant - ystod o benaethiaid cynradd ac uwchradd wedi cyfarfod yn rheolaidd efo ni yn ystod 2014
- Rhieni, plant a phobl ifanc – wedi cyd weithio efo SNAP ac wedi ymgysylltu ar fwy nag un lefel.
- Mae SNAP wedi cyd weithio efo ni drwy gynnal ymgynghoriad  i ddarganfod barn ynghylch y gyfnudrefn bresennol ynghyd a'r opsiynnau gwreiddiol oedd yn cael eu cynnig. Cynhaliwyd cyfweliadau wyneb i wyneb gyda rhai o'r teuluoedd ynghyd a rhai oedd yn derbyn

gwasanaeth SNAP yn ogystal a chyfres o grwpiau ffocws efo defnyddiwyr a darparwyr gwasanaeth.

- Cynhaliodd swyddog plant SNAP gyfweliadau unigol efo nifer o blant oedd ar gofrestr ADY ysgolion penodol.
- Yn ystod yr Haf eleni mae holiadur ar lein wedi'i gynnig i holl rieni disgyblion ADY, yn ogystal bydd ymgynghoriad pellach efo grwp o rieni mwy bregus a dau grwp o ddigyblion Ysgol yn ystod dechrau Medi 2014.
- Cafwyd cyfarfod efo llywodraeth Cymru – ymhle daeth swyddog penodol atom i drafod y Papur Gwyn - cynigion deddfwriaethol newydd ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol a gyhoeddwyd 22 Mai 2014
- Gwasanaeth Iechyd, Cyngor Ynys Môn, CBAAA – cyfarfodydd lefel uchel yn mynd i gael eu cynnal yn ystod mis Medi 2014

O'r cychwyn cafwyd cefnogaeth unfrydol i'r achos dros newid. Yn yr ymgysylltu atgyfnerthwyd ein prif ganfyddiadau dro ar ôl tro ac amlygwyd meysydd nad oedd wedi cael digon o sylw. 'Roedd y meysydd yma yn cynnwys: Diffyg cyfathrebu, diffyg cysondeb, dim dilyniant o'r meithrin i'r cynradd, a dim digon o gefnogaeth ar gyfer cynnal ymddygiad yn yr uwchradd. O ganlyniad 'rydym yn benodol wedi datblygu rôl swyddog allweddol i fod yn berson cyswllt canolog, cryfhau'r bwyslais ar y cyfnodau trosiannol, ac amlygu'r angen i roi sylw penodol i'r ddarpariaeth cynnal ymddygiad

Mae mwy o wybodaeth ar gael yn yr adroddiad i'r cabinet neu drwy gysylltu efo Eleri Llewelyn y Rheolwr Prosiect.

## 7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb

Mae rhagair gan y Gweinidog Huw Lewis AC yn y Papur Gwyn sydd yn cyflwyno'r cynigion deddfwriaethol ar gyfer ADY yn crynhoi'r achos dros newid, a'r dystiolaeth y bu i ni ei dderbyn:

"Mae'r system bresennol ar gyfer cefnogi plant ag AAA yn seiliedig ar fodel a gyflwynwyd dros 30 mlynedd yn ôl. Nid yw'r model hwn bellach yn addas i'w ddiben. Mae ymchwiliadau ac adolygiadau gan Estyn, Swyddfa Archwilio Cymru.....ynghylch y ddarpariaeth AAA wedi barnu bod y system bresennol yn gymhleth, yn ddyrys ac yn ennyn gwrthwynebiad. Mae'r dystiolaeth yn disgrifio proses asesu sy'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd ac yn gostus ac nad yw'n canolbwyntio'n ddigonol ar y plentyn nac yn ddigon syml i'w defnyddio.... Dywed teuluoedd fod yn rhaid iddynt frwydro i sicrhau'r gefnogaeth gywir ar gyfer eu plentyn ymhob cam o'r system ac nad ydynt yn gwybod at bwy y gallent droi i gael cyngor a gwybodaeth".

Rhaid bod yn ymwybodol ein bod yn ymdrin efo rhai o'r plant mwyaf bregus yn ein hysgolion ac yn aml mae sefyllfa'r rhieni hefyd yn fregus ar fwy nag un lefel

Dylid nodi fod canlyniadau’r ymgysylltu ar lefel lleol yn cadarnhau cefnogaeth i’r datganiad uchod

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**

Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut y caiff y rhain eu llenwi

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

Dylai hyn amlinellu beth yw perthnasedd y polisi/ gwasanaeth/ swyddogaeth i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion , ond os canfyddir perthnasedd a/ neu effaith mewn unrhyw un neu fwy o gategorïau, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad

**9a)**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Perthnasedd | Yr effaith wirioneddol neu debygol |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | **Oes** | 'Rydym yn rhagweld effaith cadarnhaol sy'n arwain at:<br>• Sicrhau cysondeb o ran lleoliad a safon y gwasanaeth ar draws y sir<br>• System symlach, gynt o adnabod anghenion a gweithredu ymyraethau<br>• Gwella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth efo rhieni i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | **oes** | • Byddwn yn sicrhau fod gwybodaeth ddigonol ar gael ar ffurf addas ar gyfer pob unigolyn sy'n cael ei effeithio<br>• Ystod ehangach o ddisgyblion yn cael yr un ystyriaeth o'u hanghenion drwy'r Cynlluniau Datblygu Unigol |
| **Meithrin perthnasau da** | **oes** | Byddwn yn parhau i sicrhau digon o ymgysylltu aml asiantaethol er mwyn gwella dealltwriaeth yr holl fudd ddeiliaid` |

**9b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | **efallai** | Rhai o'r disgyblion ar y gofrestr AAA yn gallu bod o hil wahanol. Ni ddylai hyn wneud unrhyw wahaniaeth gan y byddwn yn sicrhau dealltwriaeth o unrhyw anghenion diwylliannol ac ieithyddol gwahanol. |
| **Anabledd** | **oes** | Mae'r elfen yma yn berthnasol gan fod y mwyafrif o'r defnyddwyr gwasanaeth gydag ystod o anableddau yn amrywio o ran dwyster. Oherwydd yr anabledd / anghenion yma maent angen y gefnogaeth ychwanegol |
| **Rhyw** | **dim** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Ailbennu rhywedd** | **dim** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | **dim** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Crefydd neu gred** | **dim** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Yr iaith Gymraeg** | **oes** | Mae angen sicrhau deunyddiau dwy ieithog ar gyfer yr holl ymgysylltu efo rhieni a theuluoedd a sicrhau bod darpariaieth i'r dyfodol yn cyfarch anghenion ieithyddol y defnyddwyr |
| **Oedran** | **oes** | Mae'r disgyblion a gyfeirir atynt yn yr Adolygiad yma yn amrywio o 2 - 18 oed ond mae'r cynigion ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd yn ymestyn y ddarpariaeth a'r cyfrifoldeb o 0 - 25 oed |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | **dim** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | **dim** | Ddim yn rhagweld unrhyw effaith |

**10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**

| | |
|---|---|
| **a)** | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Hyd yn hyn mae'r ymateb i'r Adolygiad wedi bod yn bositif iawn, gyda'r canfyddiad bydd y cynigion yn arwain at welliant o safbwynt cydraddoldeb i'r defnyddwyr.<br>Gall fodd bynnag fod rhywfaint o ansicrwydd o ran cyflogaeth y cymorthyddion yn y dyfodol/ tymor hir o ganlyniad i bwyslais yr Adolygiad ar sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol ac effeithlon. |
| **b)** | Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?<br><br>'Rydym yn ystyried sefydlu arweiniad/ argymhellion o ran rheoli staff i'r ysgolion er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i swyddi cymorthyddion |
| **c)** | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br><br>Nagoes |

**11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU**

| |
|---|
| Bwrdd Prosiect yr Adolygiad Strategol yn monitro'r camau nesaf |

**12) CYNLLUN GWEITHREDU**
Dylid atodi Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys y camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlen, ac amlinelliad o'r trefniadau adolygu a gwerthuso

| |
|---|
| Gweler y cynllun sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad i'r cabinet.<br><br>Byddwn yn parhau efo'r ymgysylltu drwy ddefnyddio'r un egwyddorion<br>Byddwn yn rhoi ystyrieth bellach i elfennau cydraddoldeb mewn trafodaethau efo'r Adran Adnoddau Dynol. |

**13) PENDERFYNU**

| |
|---|
| Cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad 7 Hydref 2014 |

**CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB CYCHWYNNOL**
Os am gymorth gyda llenwi'r templed yma, cysylltwch â Ruth Richards, Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ruthrichards@gwynedd.gov.uk est. 2056

**1) TEITL ( A CHYFEIRNOD)* Y CYNLLUN**

| |
|---|
| C25 Rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaeth cefnogi systemau tu allan i oriau |

**2) AWDUR(ON) YR ASESIAD**
I gynnwys awdur y Cynllun uchod

| |
|---|
| **Ruth Richards a Huw Ynyr** |

**3) DYDDIAD CWBLHAU'R TEMPLED**

| |
|---|
| **13eg Tachwedd, 2014** |

**4) DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL Y DDEDDF CYDRADDOLDEB**
Nodwch os yw'r Cynllun yn debygol o gael effaith ar unrhyw un neu fwy o'r gofynion statudol isod: Os canfyddir effaith, ymhelaethwch arnynt yn llawn

| |
|---|
| a) Cael gwared a chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth<br><br>Pe byddai sefyllfa'n codi ble byddai nam ar un neu fwy system o'r Cyngor sy'n cefnogi aelodau mwaf bregus ein cymdeithas, a hyn yn digwydd y tu allan i oriau gwaith, ni fyddai cefnogaeth ar gael gan y gwasanaeth TG i ymateb i'r sefyllfa. Golyga hyn, na fyddai gwybodaeth craidd ar gael i asesu sefyllfaedd rhai aelodau o'r gymdeithas a gallai cam asesiad arwain i gamwahniaethu anghyfreithlon. |
| b) Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal<br>Gall yr un sefyllfa effeithio ar gyfle cyfartal unigolyn o ran diffyg gwybodaeth i gefnogi achos neu wneud penderfyniad i gefnogi unigolyn neu grŵp o bobol. |
| c) Meithrin perthnasau da<br>Gall yr un diffyg gwybodaeth oherwydd nam, a all fod yn gyfnod hir dros benwythnos neu doriad am y gwyliau arwain i niweidio perthynas dda rhwng y Cyngor a phobl Gwynedd. |

| |
|---|
| |

*Os yn berthnasol

**5) NODWEDDION GWARCHODEDIG**

Nodwch os yw'r Cynllun yn debygol o gael effaith ar unrhyw un neu fwy o'r nodweddion isod. Os canfyddir effaith, ymhelaethwch arnynt yn llawn

| |
|---|
| a) Hil<br>Risg i gamwahanoiaethu yn enwedig ar sail nad ydynt yn siarad Cymraeg neu'r Saesneg.  Yn naturiol, mae hyn yn ddibynnol ar y wybodaeth yma'n cael eu cofnodi ar systemau'r Cyngor. |
| b) Rhyw (gan gynnwys pobl drawsrywiol)<br>Risg posib o gamwahniaethu, ond risg isel. |
| c) Anabledd<br>Risg o gamwahniaethu oherwydd diffyg gwybodaeth am gyflwr penodol e.e. rhywyn byddar, sydd a dull penodol o gyfathrebu. |
| d) Yr iaith Gymraeg<br>Dim eithriad penodol i'r garfan yma. |
| e) Cyfeiriadedd rhywiol ( pobl heterorywiol, hoyw, lesbiaid neu ddeurywiol)<br>Risg posib o gamwahniaethu, ond risg isel. |
| f) Crefydd neu gred<br>Risg posib o gamwahniaethu, ond risg isel. |
| g) Oedran<br>Risg o gamwahniaethu gan wneud penderfynniad ar sail ble mae ymateb neu driniaeth yn ddibynnol ar oedran. |
| h) Priodas a phartneriaeth sifil/ Beichiogrwydd a mamolaeth (os yn berthnasol)<br>Risg posib o gamwahniaethu, ond risg isel. |

**6) GWYBODAETH BERTHNASOL**

Nodwch fanylion unrhyw wybodaeth berthnasol ( ar ffurf ymgynghoriadau, arolygon barn, ystadegau, adroddiadau ayb.) Nodwch unrhyw fylchau mewn gwybodaeth bydd angen eu cyfarch wrth ddatblygu'r opsiynau ynghlwm a'r cynllun

| |
|---|
| **Mae’r uchod yn datgan bod risg yng nghlwn a peidio rhoi cefnogaeth i systemau’r Cyngor y tu allan i oriau craidd y sefydliad. Mae’r risg yn cynyddu ar adegau o wyliau neu’r penwythnos a gall torriad a mynediad i systemau barhau am gyfnod sylweddol dros gyfnod fel y Pasg/Nadolig.** |

## 7) YR EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

| |
|---|
| a) Nodwch unrhyw broblemau posib o safbwynt cydraddoldeb<br>Effaith posib ar sawl grŵp bregus, yn benodol o safbwyntg hil ac anabledd. |
| b) Pa gamau gellir eu cymryd i leihau’r problemau yma<br>Risg anhebygol, ond nid oes modd ei leihau. |
| c) Beth yw’r cyfiawnhad dros fwrw mlaen gyda’r Cynllun?<br>Nid oedd cefnogaeth y tu allan i oriau’n bodoli cyn 2011 a ni chafwyd sefyllfa ble cafodd effaith o wrthdaro cydraddoldeb ei gofnodi. Mae hyn yn ymddangos bod y risg yn fychan, ond pe byddai sefyllfa’n codi sy’n tramgwyddo’r ddeddf, fe all yr oblygiadau fod yn bell gyrhaeddol. |

## 8) OES ANGEN ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB PELLACH?

Wedi ystyried y dystiolaeth uchod, bydd angen dod i gasgliad a oes angen Asesiad Effaith bellach i’w gyflawni wrth ddatblygu’r Cynllun ac i’w gyflwyno i’r Pwyllgor(au) perthnasol

| | |
|---|---|
| **Oes** | |
| **Nag oes** | **X** |

# CYNNAL ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Os am gymorth gyda llenwi'r templed yma, cysylltwch â Ruth Richards, Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith ruthrichards@gwynedd.gov.uk est. 2056

## 1) AWDUR (ON) YR ASESIAD

| |
|---|
| Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd<br>Swyddog Contractau, Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |

## 2) PARTNERIAID

Nodwch unrhyw rai eraill sydd angen eu cynnwys fel rhan o'r broses asesu: Gall hyn gynnwys staff rheng flaen, sefydliadau partner, arbenigwyr maes ayb.

| |
|---|
| Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Uned Contractau trwy drafodaeth uniongyrchol<br><br>Cymorth i Ferched a Thrais yn y Cartref De Gwynedd (trwy gyfarfodydd adolygu cytundebau, trefniadau monitro) |

## 3) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD

| |
|---|
| Hydref 2014 |

## 4) DYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD

| |
|---|
| 3 Rhagfyr 2014 |

## 5) NOD AC AMCANION Y POLISI / GWASANAETH / SWYDDOGAETH

Nodwch pam fod angen y polisi a beth mae'r Awdurdod yn gobeithio ei gyflawni drwyddo

- Mae cytundebau trydydd sector yn cael estyniad am flwyddyn ychwanegol hyd at 31/3/16 ac eithrio cytundebau lefel gwasanaeth Cymorth i Ferched a Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd.
- Fel rhan o gynigion arbedion effeithlonrwydd 2014-2017 mae Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn cynnig dadgomisiynu cytundeb lefel gwasanaeth Cymorth i Ferched (gwerth £20,070) a Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd (gwerth £33,810)
- Mae'r Adran wedi bod mewn sefyllfa o orfod ystyried pob maes gwasanaeth gan gynnwys y cytundebau 3ydd sector mwyn darganfod arbedion.
- Nid oedd penderfynu cynnig y cytundebau yma yn hawdd, ond o bwyso a mesur effaith arbedion eraill ystyriwyd fod y cytundebau yma gyda'r lleiaf o effaith ac yn rhai sydd ddim yn cyflawni cyfrifoldebau statudol ar ran y gwasanaeth.
- Mae cynnig yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd wedi mynd trwy drefniadau mewnol y Cyngor fel rhan o'r broses hon, h.y. Tîm Rheoli a Gweithgor Arbedion Corfforaethol
- Mae'r cynnig wedi ei drafod fel rhan o arbedion corfforaethol llawn gafodd

eu trafod ym Mhwyllgor Craffu Corfforaethol y Cyngor ar yr 13 Tachwedd 2014.
- Mae cynigion yr adrannau yn mynd ymlaen am benderfyniad terfynol y Cabinet ar yr 16 Rhagfyr 2014

**6) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD**
Pa gyfranogiad ac ymgynghoriad a gynhaliwyd ar y polisi / gwasanaeth / swyddogaeth a beth oedd y canlyniad?

Mae cyfarfodydd adolygu cytundebau blynyddol wedi eu cynnal hefo'r ddau fudiad

Cymorth i Ferched – 26/3/14
Gwasanaethau Trais yn y Cartref De Gwynedd – 03/06/14

Yn bresennol yn y cyfarfodydd oedd rheolwyr y mudiadau, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd a'r Swyddog Contractau. Cadarnhad yn y cyfarfodydd bod y cytundebau yn cael eu hymestyn am 4ydd blwyddyn am y cyfnod 01/04/14 – 31/03/15.

Bu i'r Pennaeth Adran rannu yn ystod y trafodaethau bod y Cyngor a'r adrannau'n wynebau sefyllfa ddyrys o ran cyfyngiadau ariannol oedd ar y gorwel. Yn y cyd-destun hwn, cadarnhaodd nad oedd modd iddi hi fel Pennaeth roi sicrwydd am barhad y cytundeb heibio 31/03/15 ac y byddai pob cytundeb yn cael ei hystyried yn nhrafodaethau ar arbedion effeithlonrwydd.

Bu i'r Pennaeth Adran siarad hefo Rheolwr Gwas. Trais yn y Cartref De Gwynedd ar y 11 Tachwedd 2014 i egluro rhesymeg y penderfyniad fel y nodir uchod. Fe rannodd y Rheolwr ei bod yn siomedig ond yn deall y sefyllfa. Nododd y byddai'n rhoi ystyriaeth i 'exit strategy'.

**7) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL**
Gall y dystiolaeth fod yn seiliedig ar ddata lleol neu genedlaethol, ar fonitro ar ymgynghori, sylwadau staff ayb

1. Data Monitro

Gweler Atodiad 1 am grynodeb o ddata monitro'r ddau fudiad. Pecyn yn ei gyfanrwydd ar gael i aelodau.

2. Y rhai sy'n cael eu heffeithio

Mae Atodiad 1 yn cynnwys adborth y rhai sydd wedi derbyn gwasanaeth gan y ddau fudiad.

**8) BYLCHAU MEWN TYSTIOLAETH**
Nodwch unrhyw fylchau mewn tystiolaeth ac esboniwch sut y caiff y rhain eu llenwi

Mae bylchau monitro o ran y gallu i adnabod a mesur gwir effaith a/neu

lwyddiant ymyrraeth y gwasanaeth a ddarperir gan y mudiadau.  Mae'r mudiadau wedi cael eu hannog yn ystod cyfnodau eu cytundebau i gyflwyno tystiolaeth ansoddol yn ychwanegol i'r wybodaeth feintiol oedd eisoes yn cael ei gyflwyno, ond nid oes tystiolaeth ddigonol wedi ei gyflwyno dros y blynyddoedd.

.

**9) PERTHNASEDD AC EFFAITH**
Dylai hyn amlinellu beth yw perthnasedd y polisi/ gwasanaeth/ swyddogaeth i'r dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol ac i bob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig). Dylid nodi'n glir beth fydd yn effaith wir neu debygol. Efallai na fydd perthnasedd nag effaith i bob un o'r dyletswyddau na'r nodweddion , ond os canfyddir perthnasedd a/ neu effaith mewn unrhyw un neu fwy o gategorïau, yna bydd gofyn bwrw ymlaen gyda'r Asesiad

**9a)**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Oes | Mae'n wasanaeth sydd lleihau erledigaeth, yn lleihau effaith ar berthnasau da ac sydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal. O ganlyniad mae peth risg wrth ddod a'r gwasanaeth i ben megis yr angen am asesiad cydraddoldeb.<br><br>Risg tebygol sydd dan sylw, gan nad oes tystiolaeth i ddangos y byddai effaith gwirioneddol a sylweddol. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Oes | |
| **Meithrin perthnasau da** | Oes | |

**9b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | | |
| **Anabledd** | | |
| **Rhyw** | Oes | Lles tebygol y rhai o fewn y nodwedd hon sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad i'r gwasanaeth. |
| **Ailbennu rhywedd** | | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | |
| **Crefydd neu gred** | | |
| **Yr iaith Gymraeg** | | |
| **Oedran** | Oes | Lles tebygol y rhai o fewn y nodwedd hon sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad i'r gwasanaeth |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | | |

**NODER:** Perthnasedd i nodweddion 'Rhyw' ac 'Oedran' sydd wedi cael sylw penodol uchod. Fodd bynnag, mae cydnabyddiaeth i'r ffaith y gall gyffwrdd ar unigolion sydd yn meddu ar y nodweddion eraill, ond ddim o ganlyniad uniongyrchol i'r nodweddion**.**

**10) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**

| | |
|---|---|
| a) | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Byddai colli'r gwasanaeth a ddarperir yn debygol o allu cael effaith ar y sawl o fewn dwy nodwedd benodol sydd ar hyn o bryd yn cael mynediad i'r gwasanaeth<br><br>Yn ychwanegol, mae'n wasanaeth sydd yn debygol o allu lleihau erledigaeth, effaith ar berthnasau da ac sydd yn hyrwyddo cyfleoedd cyfartal.<br><br>Nid oes tystiolaeth i ragweld effaith gwirioneddol colli'r gwasanaeth. |
| b) | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br>Byddai'r mudiadau yn cael eu hannog i adnabod ffynonellau ariannu amgen. |
| c) | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?**<br>Pe bai'r cynllun yn cael ei wrthod, byddai'n rhaid i'r Adran ystyried opsiynau eraill er mwyn adnabod arbediad o'r £53,880 sydd dan sylw.<br><br>Gall hyn olygu cwtogi 1.5 Gweithiwr Cymdeithasol sydd yn cyflawni dyletswyddau statudol, fyddai'n arbed £58241. |

**11) TREFNIADAU MONITRO AC ADOLYGU**

Dim

**12) CYNLLUN GWEITHREDU**

Dylid atodi Cynllun Gweithredu sy'n cynnwys y camau gweithredu, cyfrifoldebau, amserlen, ac amlinelliad o'r trefniadau adolygu a gwerthuso

Dim cynllun gweithredu

**13) PENDERFYNU**

Cyflwyno i'r Cabinet am benderfyniad ar 16/12/14

**Atodiad 1**

## Gwybodaeth Ategol (pecyn yn ei gyfanrwydd ar gael)

### Cymorth i Ferched

C1 Adroddiadau Cynnydd (sydd yn cael eu cyflwyno bob 6 mis)
C2 Taflenni Adborth Sesiynau Perthynas Iach
C3 Taflenni Adborth Sesiynau DEWIS
C4 Crynodeb o Ddyletswyddau a Swyddogaethau'r swydd sydd yn cael ei ariannu gan gyfraniad yr Awdurdod

### Trais yn y Cartref De Gwynedd

T1 Adroddiadau Cynnydd (sydd yn cael eu cyflwyno bob 6 mis)
T2 Darlun o ddarpariaeth wythnosol y mudiad
T3 Pecyn yn amlinellu darpariaeth y mudiad (noder: mae taflenni adborth y sawl sydd wedi derbyn gwasanaeth wedi ei gynnwys yn y pecyn hwn)
T4 Crynodeb o Ddyletswyddau a Swyddogaethau'r swydd sydd yn cael ei ariannu gan gyfraniad yr Awdurdod